

ECO'R WYDDFA

RHIF 319

CHWEFROR 2005

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

- Stori enillydd Tlws yr ifanc Eisteddfod Ysgol Brynrefail tud. 11
- Croesair tud. 19

Disgyblion wedi eu syfrdanu gan haelioni pobol tuag at eu Apêl Tsunami

MAE disgyblion Ysgol Brynrefail wedi casglu £1,400 i'r Apêl tsunami. Ar ôl gweld y drychineb ar y teledu dros y Nadolig fe benderfynodd criw o'r chweched dosbarth drefnu apêl i hel arian ar gyfer y rhai sydd wedi diodde yn sgil y daeargryn yn Asia.

Ac mae'r rhai fu'n trefnu'r apêl wedi eu syfrdanu gan haelioni'r disgyblion ac eraill yn yr ardal. Mae Huw Foulkes a Ceri Meredydd Williams, prif ddisgyblion yr ysgol, wedi ysgrifennu am y profiad i'r Eco.

Yng nghanol bwrlwm a gwledda ein Nadolig prysur ni, llanwodd pob sgrin deledu â darluniau a golygfeydd erchyll o gyfandir Asia. Ychydig a wyddem ddydd Nadolig fod trychineb ar droed – trychineb cwbl annisgwyl sydd wedi effeithio ar y byd.

Buan y sylweddolodd pawb fod rhaid ymateb, a hynny ar fyrder a'r cwestiwn yn hofran yn ein meddyliau, 'Be allwn ni ei wncud?'

Yn dilyn cais y chweched dosbarth, trefnwyd cyfarfod fforwm brys a phawb yn unfrydol y dylem gefnogi'r apêl. Y cwestiwn nesaf ar ein meddyliau oedd 'Pa fath o apêl?'

Gwelwyd fod nifer o siopau

£1,400



Disgyblion Ysgol Brynrefail fu'n helpu casglu'r arian.

elusenol yn gwrthod dillad a nwyddau cyffelyb am fod y siopau yn gorlenwi. O ganlyniad, penderfynwyd y buasai trefnu casgliad ariannol yn fwy buddiol. Teimlai'r fforwm mai casgliad ariannol a diwrnod di-wisg ysgol fyddai'n cael ei drefnu yn hytrach na gweithgareddau hwyliog a doniol. Penderfynwyd ar hyn rhag bod yn ansensitif tuag at y drychineb.

Ysgrifennwyd llythyr i gastrefi'r disgyblion yn gofyn i'r

rhieni am gyfraniad tuag at yr apêl ar ran yr ysgol. Bu'r ymateb yn rhyfeddol ac arian yn llifo i'r swyddfa yn ddi-ddiwedd am wythnos gyfan yn mis Ionawr. Braf oedd gweld fod y gymuned ym mro'r Eco mor barod i roi cymorth i oroeswyr y drychineb.

Yn ogystal â hyn, rhoddodd y diwrnod di-wisg ysgol gyfle i'r disgyblion gyfrannu at yr achos, gyda phawb yn cyfrannu o leiaf £1, hyn yn rhoi sylfaen cadarn o £700 i'r casgliad.

Bu'r dydd Gwener yn hynod

brysur wrth i'r cyfraniadau olaf gyrraedd y swyddfa. Hunllef fu'r prynhawn Gwener hwnnw i'r prif ddisgyblion wrth iddynt sylu'n rhyfeddol ar yr holl arian yn cael ei arllwys ar fyrddau'r llyfrgell yn barod i'w cyfri. Prawf teilwng o gareddigrwydd a pharodrwydd y gymuned i gyfrannu tuag at yr apêl. Yn dilyn oriau o gyfri, y cyfanswm oedd £1,400, gydag ambell gyfraniad yn dal i gyrraedd yr ysgol.

Hoffem ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd tuag at yr apêl. Teimlwn fel ysgol cin bod wedi llwyddo i wneud yr hyn a allwn i helpu plant a phobl ifanc yr un oedran â ni. Yn wir, mae'r drychineb echrydus yma wedi gwneud i ni fel pobl ifanc sylweddoli pa mor ffodus ydym ni, ac i werthfawrogi ac ymfalchïo yn yr hyn sydd gennym. Gobeithio ydi'r unig beth allwn ni wncud o hyn ymlaen – gobeithio y caiff plant a phobl ifanc cyfandir Asia Nadolig gwell y flwyddyn nesaf.

Aer Bro'r Eco wedi ei brynu mewn ocsiwn

– stori llawn tudalen 18



ECO'R WYDDFA

**RHIF 319
CHWEFROR 2005**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth a'r Eilion Roberts,
SWM-Y-GWYNT (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871020)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Arlwyddyn (872270)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN, 14 CHWEFROR

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 24 CHWEFROR

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mawrth	14 Chwefror	24 Chwefror	Llanrug	Iolo Llywelyn	

Llythgrau

Rhoslan
Waunfawr

Annwyl Olygydd,
Ar ei ymddeoliad, dymuna fy
ngwraig a minnau, drwy gyfrwng y
papur bro *Eco'r Wyddfa*, fynegi ein
gwerthfawrogiad i Doctor Williams
am ei wasanaeth i drigolion y
pentref dros nifer o flynyddoedd.
Roedd, nid yn unig yn feddyg, ond
yn ffrind a oedd bob amser yn
barod i wrando yn amyneddgar a
chydymdeimladol, boed yn ddydd
neu nos.

Bydd llawer un yn y pentref a'r
ardal o amgylch yn gweld colled
fawr ar ei ôl. Dymunwn ddiolch i
Doctor Williams, y meddygon eraill
sydd yn y practis, a'r staff sydd yn
cydweithio â hwy fel tîm am eu
gofal a'u caredigrwydd diflino.

Dymunwn ymddeoliad hir a
hapus i Doctor Williams.

Yn gywir
Cyril Smith

Swyddfa'r Brif Weinyddes
Ward Minffordd
Ysbyty Gwynedd
BANGOR

Annwyl Olygydd

A fuasai'n bosibl imi, drwy
dudalennau *Eco'r Wyddfa*, ddiolch i
drigolion pob pentref sydd yn
darllen ac yn cyfrannu i'r papur, os
gwelwch yn dda?

Ar bnawn Sul, 19 Rhagfyr, roedd
Seindorf Arian Deiniolen a Chôr
Dyffryn Peris wedi trefnu pnawn o
garolau yn Mynydd Gwefru,
Llanberis.

Erbyn diwedd y pnawn roedd y
trigolion wedi codi £276.23 trwy
gasgliad i elusen gymuned lleol
Cath. Bydd yr arian yn cael ei
ddefnyddio i brynu anrhegion i'r
plant lleol hynny sydd yn dioddef o
gancr neu liwcaemia.

Fel nyrs y plant rwyf yn
ddiolchgar dros ben i'r Seindorf a'r
Côr am enwebu'r elusen, ac yr
ydym yn derbyn yr arian gyda
chariad mawr.

Unwaith eto, diolch i bawb a
gyfrannodd mor hael o'u harian a'u
hamser ar y diwrnod.

Yn gywir

Eleri Fôn

(nyrs plant gyda chanser neu
liwcaemia yn y gymuned)

DRAENOG

Helynt Nadolig 2004

Rôl truglo'r Nadolig yn gwlcedda,
Aeth CENT i'r Paradox am beintia!

Ond gwnaeth ormod o ddrwg,

Rôl cael gormod o gwrw,

Gan orffen yng nghofn Black Maria.

Aeth ei HEULWEN yn unig am adra,
A'i llygaid yn llenwi â dagra,

Roedd y gorlad gan MEICAL

Bu'n rhaid cysgu'n stabal,

Ni ddaeth seren uwchben cyn y bora.

Wel talu y ffein vodd peth gora

Ncu yn clinc y byddai tan bora;

Roedd BECAR 'di diflannu

Rhag mai fo fyddai'n talu,

Aeth ALWYN i'w nôl hefo berfa!

Y BARDD GWLYB

CERDDI'R 'PRENTIS'

Dyna yw enw pamffled o gerddi o
waith Richard Llwyd Jones. Mae'r
bamffled yn ddathliad personol
sy'n cronicle 10 mlynedd o geisio
meistroli'r grefft o farddoni. Deng
mlynedd yn ôl dechreuodd
ymddiddori yn nosbarth Ifor
Baines yn y Felinheli. Mae nifer
o'r englynion yn ymwneud â phobl
ardal Bethel. Pwrpas arall y
bamffled yw helpu i gynyddu
coffrau apêl ardal Bethel at gronfa
Eisteddfod Eryri 2005. Gofynnir
am daliad o £1 am y daflen. Ar hyn
o bryd mae Richard yn mynychu
dosbarth Ysgrifennu Creadigol yng
Nglynllifon, dan arweiniad Karen
Owen. Dyma ymateb Karen i'r
cerddi.

Un o'r traddodiad

Mae gan y Cymry Cymraeg, ers
canrifoedd, arfer o gofnodi, dathlu
a galaru ar ffurf barddoniaeth. Nid
rhywbeth uchel ael ydy'r arfer hwn,
gan fod y glust Gymraeg, rywsut
wedi'i thiwnio i swm englynion a
chywyddau, fel pe bai'r odlau yn
gallu cydymdeimlo â thestun y
gerdd a'n teimladau ninnau.

Weithiau, fe fydd llinellau'n
chwerthin efo ni; dro arall yn crio;
ond beth bynnag fo'r naws, mae'r
cerddi gorau o hyd yn ffendio'i
ffordd i'r galon. Weithiau, fe fydd
union ystyr barddoniaeth yn
hedfan yn uchel uwch ein pennau;
dro arall bydd y geiriau symlaf yn
ein taro yn ein talcen. Ond mae'r
cerddi gorau yn aros ar gof ac ar
dafod am yn hir.

Mi wn fod Richard Llwyd
Jones, awdur y daflen *Cerddi'r
Prentis*, wedi dotio ar y gynghanedd
ers mynychu ei ddosbarth cyntaf
yn y Felinheli deng mlynedd yn ôl.

Mae'n awyddus iawn i ddod a'i
englynion, yn bennaf, i ganol
bywyd ei ardal ym Methel ger
Caernarfon.

Wrth fynd am dro o gwmpas y
fro, ar y cae ffwtbol neu griced, ym
mhulud y myrdd gapeli bydd yn
ymweld â nhw i bregethu, yn ei
waith fel Cynghorydd Bro... mae
wrthi'n cyfansoddi'n ddygn.

Mae Richard hefyd yn ddyn
pobl, ac yn awyddus i rannu ei
waith. Mae'n debyg mai ar lafar –
wrth siarad â phobl – mae ei
englynion wedi eu clywed amlaf.

Yng nghanol sgwrs, cyfarfod neu
bregeth, mae'n hollol naturiol iddo
adrodd darn o'i waith, ac mae cael
ymateb ar y pryd yn bwysig iddo.

Mae Richard yn aelod o
ddosbarth Ysgrifennu Creadigol,
ac yn ei elfen yn trafod yr hyn sy'n
gwneud i lenyddiaeth a phobl
dicio. Dyna pam dwi'n meddwl ei
fod yn ysgrifennu, gan mai proses o
ddod i ddeall dynoliaeth a thrwy
hynny yr hunan ydi hi yn aml.

Mae'n ei alw ei hun yn brentis
oherwydd i ambell feirniad llên
mewn eisteddfodau lleol
ddefnyddio'r un gair hwnnw yn eu
sylwadau. Ond os mai prentis yw
Richard, mae'n brentis sydd
weithiau'n graddio gydag
anrhydedd, fel yn ei englyn i'w hen
gyfaill ysgol, y Prifardd Ieuan
Wyn:

Ieuan Wyn

Yn yr iaith ces dy drwytho

– yn y gwaed

ysfa'i godi a brwydro

gyda'r werin ddiplino

nes daw'r awr i adfer bro.

Ymhen wythnos o argraffu'r daflen
hon, sydd â'i helw'n mynd i gronfa
cylch Bethel at Eisteddfod
Genedlaethol Eryri 2005, roedd
Richard wedi gwerthu 70 copi.
Mae'n debyg, erbyn i chwi ddarllen
yr adolygiad hwn, y bydd y nifer
tipyn yn uwch. Dyna, mae'n debyg,
yr adolygiad gorau.

Cerddi'r 'Prentis'



Richard Llwyd Jones

Bydd unrhyw elw o'r pamffled yma yn cael ei
drosgrwyddo i apêl Cylch Bethel tuag at Eisteddfod
Genedlaethol Eryri, 2005

£1 (ERTHWYLL)

Cip Dros y Copa

Cyfarfod agored i drafod cydweithio
o amgylch yr Wyddfa

Ym mis Hydref llynedd bu tîm o
saith arbenigwr yn y meysydd
twristiaeth, cadwraeth, yr economi
lleol a chymunedau o America, Yr
Alban a Lloegr ar astudiaeth
cyfweild i fro'r Wyddfa. Fel
canlyniadau i wythnos ddwys o
gyfarfodydd, cyflwyniadau,
trafodaethau, ymweliadau ac
ymchwil, mae'r tîm wedi cyflwyno
adroddiad:

CIP DROS Y COPA,
i bobl a chymunedau Llanberis,
Waunfawr, Betws Garmon a
Beddgelert. Er mwyn trafod yr

argymhellion a'r ffordd ymlaen,
bydd cyfarfod agored o dan
gadeiryddiaeth Geraint George,
Prifysgol Cymru, Bangor, am

7.00 yr hwyr

nos Iau,

10 Chwefror 2005

yn

Neuadd y Pentref, Beddgelert

Bydd y cyfarfod yn agored i bawb.
Gellir derbyn copi o'r adroddiad
trwy ffonio Keith Jones ar (01766)
510120. Croeso i pawb i wrando,
llcisio cu barn ac ymateb i'r
trafodaeth agored. Peidiwch a
choli'r cyfle i ddweud eich
dweud!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Blwyddyn Newydd Fendithiol i chwi oll.

CROESO 2005. I groesawu'r flwyddyn newydd bu 30 o drigolion y pentref hwn yn aros ym mhentref hanesyddol Nant Gwrtheyrn. Roedd y tywydd yn addfwyn a'r awyrgylch yn ferw o hwyl a chyfeillgarwch. Bu gwledda o dŷ i dŷ, a'r canu yn hwyliog a soniarus! Cafwyd arddangosfa wych o dân gwyllt ar drawiad hanner nos a chafwyd ymweliad gan neb llai na Meinir a Rhys eu hunain. Diolchir i Jane a Grey Evans am offen y noson mor fendigedig, Grey wedi gwisgo yn hynod hardd fel priodferch a Jane fel Rhys ac fe fwynhaodd y bobl ifanc wrando ar y stori am Meinir a Rhys. Gobeithio y cawn groesawu 2006 yn yr un modd.

UN AR HUGAIN. Pob dymuniad da i ti, Nia Porter, ar achlysur dy ben-blwydd yn 21ain yn ddiweddar. Pob bendith i'r dyfodol.

COLLI ANWYLIAID.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elinor Jones, 2 Bron y Waun, a theulu Glan Conwy yn eu profedigaeth o golli ffrind annwyl, Gwilym Evans.

Yr un modd, anfonir ein cydymdeimlad llwyrat â theulu 8 Bryn Tirion, o golli brawd annwyl, sef Bryn Jones, mab y diweddar Johnny a Maria a brawd hoffus John, Doris, Henry, Eric, Margaret, Phil, Glenys, Douglas, Dewi, Norman, Will, Carol a'r teuluoedd oll. Anfonir ein cydymdeimlad i'w wraig, Joyce, a'r teulu yn Plymouth.

Ein cydymdeimlad dyfnaf hefyd â Mr Leslie Larsen a'r teulu oll ar golli chwaer annwyl. Mamie Larsen o Gaernarfon, a hynny wedi cystudd hir.

Rydym yn meddwl amdanoch oll fel teuluoedd.

DIOLCH. Dymuna Elinor Jones, 2 Bron y Waun a theulu y diweddar Gwilym Evans, Glan Conwy, ddiolch i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolchir am y rhoddion hael a dderbyniwyd at Glefyd y Siwgrwr.

Dymuna teulu'r diweddar Bryn Jones, 8 Bryn Tirion gynt, ddiolch i chwi oll am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y rhoddion tuag at Apêl Tŷ Gobaith yn ystod eu profedigaeth o golli brawd annwyl.

Dymuna Janice Jones, Perthi, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'r anrhegion ar achlysur ei hymddeoliad fel cogyddes yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

CROESO CYNNES. Hyfrydwch bob amser yw groesawu ein pobl ifanc yn ôl i'r pentref. Croeso mawr i Emyr a Katy a'r teulu bach i'w cartref newydd.

Croeso'n ôl i John Eifion, Marina, Lois ac Anest wedi cyfnod o fyw yn Ninorwig tra roeddant yn adnewyddu eu tŷ newydd yn Waun. Rydym yn falch iawn o'ch cael yn ôl, teulu hynod weithgar a chefnogol i bopeth yn y pentref.

Croeso yn ôl i tithau Berwyn Paterson wedi cyfnod hir o weithio yn Llundain.

YSGOL SUL BOSRA. Cafwyd 'Gwasanaeth Teulu' hyfryd bawn Sul, 12 Rhagfyr yng ngofal Mr Mervyn Jones, Gaernarfon ac aelodau'r Ysgol Sul. Diolchir i Mr Jones am ei anghydoldd i'r plant a diolchir i'r plant hwythau am eu gwasanaeth cloddiw. Fel arfer, Gwnaed casgliad sylweddol tuag at Gronfa Apêl Adnewyddu'r Capel. Diolchir i Siôn Corn ifanc, golygu am ddod ag anrhegion i'r plant a diolchir unwaith eto i Anti Bronwen am y mins peis ar ddiwedd y gwasanaeth.

DIOLCH. Dymuna Pr Raymond a Mrs

Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

APÊL ADNEWYDDU'R CAPEL. Gobeithir cynnal amrywiol weithgareddau i godi arian i adnewyddu Capel Bosra, yr unig gapel ar agor bellach yn y pentref. Erfynnir am gefnogaeth aelodau a chyn-aelodau ynghyd â theuluoedd aelodau'r Ysgol Sul a chyn-aelodau'r Ysgol Sul a ffrindiau oll yn y fenter hon.

PWYLLGOR NEUADD.

16 Rhagfyr: Cafwyd Noson Siôn Corn lwyddiannus iawn. Diolchir i Siôn Corn am ei eiriau caredig a'i anrhegion i'r plant. Roedd wrth ei fodd yn ei Groto liwgar, oleuedig! Diolchir i bawb a gefnogodd y noson. Gwnaed elw sylweddol o'r Raffi Fawr, bydd hyn yn hwn da at gostau rhedeg y Neuadd a'r Ystafell Gymuned.

Atgoffir aelodau'r Clwb Cant - yn garedig - mae'n amser adnewyddu'r aelodaeth. £6 y flwyddyn, 50c y mis, neu gellir ymaelodi drwy Archeb Banc. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â'r Clwb Cant - buasem yn hynod falch o gael mwy o enwau ar y rhestr. Cynhriir Cyfarfod Blyneddol nos Lun, 31 Ionawr am 7.00 yn yr Ysgol Gymuned.

EGLWYS SANTES HELEN. Mae Apêl Ariannol at drychineb Tsunami wedi'i hagar. Mae amlenni arbennig ar gael gan swyddogion yr Eglwys. Derbyniir cyfraniadau yn ddiymdroi os gwelwch yn dda.

YSGOL GYMUNEDOL

A gawn ni'n gyntaf ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref. Fel ysgol carem ddiolch i chwi i gyd am bob cefnogaeth a chyfraniad a dderbyniwyd yn ystod y tymor diwethaf.

Ymddeoliad cynnar. Derbyniodd Anti Janice lu o anrhegion gan ddisgyblion a staff yr ysgol yn dilyn ei hymddeoliad cynnar. Cafwyd cacen arbennig er mwyn coronni ei diwrnod olaf yn yr ysgol. Bydd chwith i'r disgyblion a'r staff ar ei hôl.

Hoffwn groesawu'r gogyddes newydd i'n plith, Mrs Karen Jenkinson. Mae Mrs Jenkinson wedi ymgartrefu yn dda ymhlith y staff a'r disgyblion.

Swyddogion diogelwch y ffyrdd. Eleni etholwyd Elen Hughes a Joshua Jones fel swyddogion Diogelwch y Ffyrdd. Mae diogelwch y disgyblion yn nwylo'r ddau!

Clwb pêl-droed. Yn wythnosol ar nos Fercher cynhelir Clwb Pêl-droed yr ysgol ar gyfer disgyblion blyneddod 5 & 6. Pob lwc i Beckam's neu Ronney's y dyfodol! Diolchir i Iwan Harding o Lanberis am ei gymorth gyda'r sesiynau hyfforddi. Dymunwn pob lwc iddo ar ei gwrs fel darpar athro.

Apêl Tsunami. Casglwyd oddeutu £120 tuag at Apêl Tsunami i'r cymunedau a ddinistriwyd yn sgil y don enfawr a olchodd dros ranhelaeth o Asia.

GOGHELYWCH, THEATR GWYNEDD. Cafwyd gwledd o gyngerdd gan ddisgyblion yr ysgol pan berfformiwyd ein Sioe Gerdd, 'Gabriel'. Ailadroddwyd stori'r geni gyda gogwydd fodern, yn cynnwys bowners Herod, y di-gartref, Elvis, Madona, David Beckham a gwŷr buene cefnog pwerus. Mwynhaodd y disgyblion y profiad yn fawr. Perfformiwyd y sioe ar nosweithiau 8 a 9 Rhagfyr i'r cyhoedd ac ar brynghawn Mercher i honed y pentref. Hoffem ddiolch i'r rhieni am baratoi'r gwisgoedd ac i holl staff yr ysgol a fu'n rhan o'r sioe, heb anghofio system sain Gil. Diolch



'Elvis'.



Anti Janice a'i theisen ymddeoliad.



Gabriel a'r angylion.



Herod a'i fownsars.



Mair, Jossef - digartref.

O SIAMBAR SELWYN

Blwyddyn newydd hapus a llwyddiannus i chi i gyd. Yn ystod y gwyliau mi gefais lythyr gan yr hen gyfaill, Y Dr D. Ben Rees, Lerpwl, yn cynnwys y copi cyfredol o bapur Cymry Glannau Mersi a Manceinion, Yr Angor. Mae hwn yn bapur diddorol iawn, ac yn profi bod yna frwdfrydedd ymysg y Cymry ar lannau Mersi, cyn belled a mae'r Cymdeithasau Cymraeg yn y cwestiwn.

Bu dadl frwd rhwng yr Archdderwydd, Robyn Llŷn a'r Dr Ben Rees ar y rhaglen *Taro'r Post* ynglŷn â chynnig Lerpwl i roddi cartref i'r Brifwyl yn 2007. Yr un noson ar y rhaglen *Post Prynhawn* fe gafodd Ben a minnau drafodaeth fwy heddychol ar y mater.

Fe wn i o brofiad bod yna Gymdeithasau Cymraeg llewyrchus ar Lannau Mersi, gan i mi gael y fraint a'r pleser o ymweld â Chymdeithasau Lerpwl a Phen-y-bedw, a chael cynulleidfaoedd o dros gant yn y cyfarfodydd. Mi ges i'r cyfle hefyd o feirniadu yn Eisteddfod y Ddinas, ac un o'r cadeiriau eisteddfodol harddaf a enillais erioed ydi Cadair Eisteddfod Gadeiriol Lerpwl 1986.

Bu'r Brifwyl yn Lerpwl deirgwaith: 1884, 1900 a 1929. Diddorol sylwi i rai o drigolion Bro'r Eco ennill clod a bri yn Eisteddfod 1884. Yr enillydd ar y bryddest ar y testun 'Yr Aifft', oedd Edward Foulkes o Lanberis, stiward yn chwarel Vivian. Merch iddo oedd Annie Foulkes, golygydd y gyfrol *Telyn y Dydd*. Ugain punt oedd y wobwr, ac roedd saith wedi cynnig. Does na ddim sôn iddo gael Coron.

Yn yr un eisteddfod enillodd Côr Meibion yr Arvon, o dan arweiniad Robert Phillips, Tanrallt, Fachwen, y wobwr gyntaf am ganu 'Martyrs of the Arena' a 14 o gorau yn cystadlu. Buddugoliaeth fawr i chwarelwyr Dinorwig.

Enillydd yr Unawd Bas yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl 1884 oedd William Ellis, Weirglodd Goch, Penisa'rwaun. Fe ganodd 'O Ruddier Than the Cherry', Handel. Roedd William Ellis yn dad i'r diweddar Arthur Ellis, Weirglodd Goch. Roedd y Pafiliwn yn dal 10,000 ac fe wnaed clw o £147. 17. 1.

Yn Eisteddfod 1900 daeth Eifion Wyn yn ail am y Gadair am ei Awdl 'Y Bugail'. Dyna'r unig dro iddo gystadlu am y Gadair. Pedrog enillodd, ac fe bwdodd Eifion Wyn.

Vn 1929, Pedrog oedd yr Archdderwydd a fo gafodd y fraint o goroni Caradog Prichard pan enillodd o ei drydedd Coron Genedlaethol yn olynol. Yn yr eisteddfod hon yr enillodd Dewi Emrys ei Gadair Genedlaethol gyntaf. Ond eisteddfodau dwyieithog, gyda'r Saesneg yn cael y flacnorfaeth, oedd yr Eisteddfodau Genedlaethol hyn a gynhaliwyd yn Lerpwl. Mae'r llyfr trwchus *Liverpool National Eisteddfod 1884*, (680 o dudalennau) sydd yn fy mddiant yn brawf o hyn. Fe gynhaliwyd nifer o fân

eisteddfodau yng nghyffiniau Lerpwl yn ystod y ganrif ddiwethaf, mewn llefydd fel Ashton-in-Makerfield, Prescott, St Helens, Earlstown, Leigh, Warrington a Wigan. Eglwysi Cymraeg fel arfer a fyddai yn gyfrifol am yr eisteddfodau hyn, ac yn wir yn Ashton, fe gynhelid dwy eisteddfod yn flynyddol. Yr unig bentref yng Nghymru y gwn i amdano ble cynhelir dwy eisteddfod ydi Trawsfynydd - 'Steddfod Stesion a 'Steddfod Llawrplwy.

Roedd Eisteddfod y Ddraig Goch, a gynhaliwyd yn Lerpwl rhwng 1921 a 1926, yn enwog iawn. Gwahoddwyd beirniaid o fri fel Pedrog, Eifion Wyn, T. Gwynn Jones, Meuryn ac R. Williams Parry i feirniadu'r cystadlaethau barddonol, ac ymysg yr enwau a fu'n beirniadu rhyddiaith gwelir, Tegla, Kate Roberts a Saunders Lewis. Cerdd - Dr Caradog Roberts, Osborne Roberts a Dr Hopkin Evans. Prif bwrpas cynnal yr Eisteddfod hon oedd er mwyn cynnal yr holl weithgareddau yn Gymraeg, ac un a fu'n weithgar iawn ynglŷn â'r eisteddfod oedd y diweddar lyfrwerthwr, J. R. Morris.

Cymraeg yn unig oedd iaith yr Eisteddfod a gwrthodwyd caniatáu i unrhyw un feirniadu na thrafod na chystadlu ond yn y Gymraeg, ac roedd hynny cofiwn, cyn i'r Eisteddfod Genedlaethol ddilyn yr un llwybrau.

Eisteddfod enwog arall oedd Eisteddfod y Golomen Wen, Birkenhead. Yn un o'r eisteddfodau hyn yr enillodd y Prifardd Seimon B. Jones (un o Fois y Cilie) ei gadair gyntaf.

Wrth gwrs, o ddwyn i gof eisteddfodau Lerpwl rhaid cofo am Eisteddfod Lewis, eisteddfod y bu Cynan yn gysylltiedig â hi, gan ei fod yn awyddus i gael 'steddfod fawr mewn siop yn Lerpwl, a ddenai gystadleuwyr o ogledd Cymru. Daeth rhai o feirdd buddugol Eisteddfod Lewis yn brifeirdd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddarach, rhai fel Dilys Cadwaladr a Rolant o Fôn.

Ku'r Wasg yn naturiol yn fy holi am fy marn ynglŷn â chais Lerpwl i gynnal ein Prifwyl. Yn onest fedra i ddim bod yn hapus o feddwl bod Eisteddfod Genedlaethol Cymru i'w chynnal ar dir Lloegr yn yr oes sydd ohoni. Y tro ola i'r Eisteddfod gael ei chynnal ar dir estron, oedd yn Lerpwl yn 1929, ac fe wnaeth yr Eisteddfod honno £1,000 o golled.

Fel y soniais, mae yna Gymdeithas Gymraeg hynod o

lewyrchus yn y ddinas. Ond tybed a all Cymry Lerpwl heddiw godi £250,000 o gronfa leol? Beth fydd ymateb trethdalwyr y ddinas o orfod cyfrannu o leia £300,000 at Wyl a gynhelir yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg?

Sir Fflint a Dinas Lerpwl sy'n dangos diddordeb ym Mhrifwyl 2007. Dau le sydd mwy neu lai yn gymdogion i'w gilydd. Roedd Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau

yn 'steddfod hynod o lwyddiannus. Beth am i'r ddau uno a galw'r Eisteddfod yn Eisteddfod Sir Fflint a'r Glannau, a'i chynnal hi, wrth gwrs, ar dir Cymru.

Cwestiwn arall a ofynnwyd i mi oedd. Fyddech chi yn mynd i'r Eisteddfod pe cynhelid hi yn Lerpwl? Byddwn wrth gwrs. Yn wir, pe cynhelid ein Prifwyl ar y lleuad, fe wnawn i bob ymdrech i fynd yno.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o Glwb Eryri am y flwyddyn newydd yn y Fictoria, nos Wener, Ionawr 7, 2005. Wedi croesawu'r aelodau a dymuno blwyddyn newydd dda i bawb, cyfeiriodd y Llywydd at y tsunami yn Asia, gan gofio am y rhai a gollodd eu bywydau a'u heiddo yn y drychineb fawr yma. Diddorol oedd atgofion y Llywydd o'i ymweliad i ardal Banda Aceh yn Sumatra - un o'r ardaloedd a ddiddefodd waethaf yn y drychineb.

Darllenwyd cerdd Wyre Thomas gan Geraint Huws Roberts. Myfyrdod oedd y gerdd ar sgwrs y Llywydd, Ralph Jones, ar y 'res-linellau a blannwyd yno rywbryd ar draws y paith' - sef llinellau'r Nazca yn Periw, De America.

Is-Lywydd y Clwb, Dafydd Ellis, oedd Llywydd y noson a chyflwynodd y siaradwr, Edgar Parry, drwy gyfeirio at ei wybodaeth eang o hanes lleol a'r ffaith ei fod yn awdur pedawr llyfr ar agweddau gwahanol o hanes y fro. Deallwn fod pumed cyfrol ar y gweill ac edrychwn ymlaen ati.

Dechruodd y darlithydd drwy sôn am ei chwilyfrydedd a'i

hoffter o ddarllen llythyrau neu ddyddiaduron pobl eraill. Arweiniodd hyn at ymchwil trylwyr i lythyrau'r Parch Peter Bayley Williams, Pantafon. Eglurodd sut y daeth o hyd i'r llythyrau ac i ymchwilio iddynt. Rhoddodd Edgar enghreifftiau byw iawn yn codi o'r llythyrau o effaith gweithrediad deddfau'r tlodion ar y gymdeithas leol yn y cylch yma. Cafwyd trafodaeth frwd a'r sawl mater gan gynnwys ystyr y dywediad 'Diwrnod i'r Brenin' - pryd roedd pob ffermwr lleol yn rhoi diwrnod o'i amser yn ddi-dal i atgyweirio'r ffordd fawr. Diolchodd Dr Robin Parry i'r siaradwr am ddechongli hanes lleol mor fyw a chelfydd trwy'r dogfennau gwreiddiol ac am ddarlith tu hwynt o ddiddorol.

Yn ystod yn noson trafodwyd y trefniadau ar gyfer y Cinio Gŵyl Dewi sydd i'w gynnal ar y 4ydd o Fawrth gyda Norman Closs Parry yn ŵr gwadd.

Cyhoeddodd y Llywydd, y bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Chwefror 4, 2005 a'r siaradwr fydd Dei Tomos, gyda Huw Price Hughes yn llywyddu'r noson.




CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr oedd: £40: Mr Wyn Griffith, Gernant; £25: Ms Sali Davies, Tŷ Capel; £10: Mr a Mrs S. Jones, Ty'n Cae.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Eglwys y Waun, bnawn lau, 9 Rhagfyr. Croesawodd Mrs Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Rosemary Bracegirdle i'r cyfarfod fel aelod newydd. Cafwyd pwnn difyr yn gwrando ar rai o hoff Gryno Ddisgiau'r aelodau. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer mynd i Feddgelert i wasanaeth Carolau grŵp Eifionydd ar 10 Rhagfyr. Enillydd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Mrs Maureen Hughes, oedd M/s Frances Hurst. Mrs Hilda Williams oedd yn gyfrifol am wneud y mins peis a'r baned i'r aelodau.

Y mis nesaf, ar 6 Ionawr, cynhelir y Cinio Nadolig yn y Bistro Llanberis.

* * *

Mwynhaodd 15 o aelodau'r Sefydliad ginio Dolig ardderchog yn y Bistro, Llanberis bnawn lau, 6 Ionawr. Ar ôl y cinio treuliodd pwnn difyr yn sgwrsio a rhannu anrhegion i'w gilydd. Diolchodd Mair Williams i Hilda Williams ac Anne Williams am wneud y trefniadau. Atgoffwyd yr aelodau am Gyfarfod Blynnyddol y Ffederasiwn sydd i'w gynnal yn Ysgol Brynrefail ar 29 Ionawr.

Ar 3 Chwefror, Mr Bleddyn Williams o Gaernarfon fydd y gŵr gwadd, pryd y ceir sgwrs ar 'Yr Hen Gaernarfon'. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DIOLCH i Marian, Olwen a Gina Gwyrfa'i am fynd i Lanrug i blygu'r rhifyn Nadolig/Ionawr o'r Eco. 'Dyma'r tro cyntaf i mi ddod i blygu'r Eco,' meddai Gina, 'ac rwyf wedi mwynhau. Fe fydda i yn siŵr o ddod eto.'

DIOLCH yn fawr iawn i fy nheulu, ffrindiau a'm cymdogion am bob cymorth caredig a gefais i symud i fy nghartref newydd 'Y Dalar Deg'. Dymunaf Flwyddyn Newydd Dda i bawb - Margaret.

DIOLCH. Dymuna Valerie a Christian Dixon ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeith eu merch fach, Georgina.

DIOLCH. Dymuna Jason ac Eleri Anderson, Stad Glynafon, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y galwadau ffôn, a'r llw gadarn a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam Eleri.

GWASANAETH NADOLIG. Da iawn chi blant yr Ysgol Sul am eich gwasanaeth Nadolig. Diolch i bawb gymerodd ran gyda hwy. Ac i Siôn Corn am alw ar dorfyn y gwasanaeth gyda anrheg i bob un. LLONGYFARCHIADAU

PRIODAS. Dymunwn yn dda i Bethan Roberts, 10 Bryn Golau ar ei phriodas a Dylan Roberts o Dregarth. Priodwyd y ddau ychydig cyn y Nadolig yng Nghaernarfon. Dymunwn bob hapuerydd iddynt yn eu cartref yn Gŵl y Bryn. Dymuna Bethan a Dylan ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

GENEDIGAETH. Dydd Calan, yn Ysbyty Gwynedd ganwyd Ioan Gruffydd, mab bach i Eleri a Derek Dale, Stad Tŷ Hen, brawd bach i Gwyndaf, Robat a Katie, ac ŵyr i John a Megan, Ty'n Mynydd.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Pryderi Tomos, Stad Tref Eilian, ar ei llwyddiant yng Ngradd 5 chware'r piano.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin Huws, Argoed, ar gyrraedd ei deunaw oed. Pob hwyl i ti i'r dyfodol, Elin.

ADREF O'R YSBYTY. Gobeithiwn yn fawr bod Mrs Doris Roberts, Dwyros; Mrs Lyn Brown, 2 Dôl Erdd; Mrs Kitt Jones, Stad Tref Eilian a Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin yn gwella wedi iddynt gael dod adref o'r ysbyty.

TREULIODD Teulu Ger y Ffynnon eu noswyl Nadolig yn Uned Ddamweiniau Ysbyty Gwynedd wedi i Megan ddisgyn a thorri ei braich.

Gorfu iddi aros yno dros nos, ond gwelodd Siôn Corn ei bod yno a gadawodd anrheg iddi yn ogystal ac wrth ei gwely adref. Mae yn gwella yn ara bach erbyn hyn.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Arnold Roberts, 10 Bryn Golau sydd yn Ysbyty Gobowen ar hyn o bryd.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Siop y Pentref yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Henderson. Roedd Mr Whitbread yn byw yn Stad Croesywaun.

Dymuna Rita ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, cymorth a chefnogaeth y mae wedi ei dderbyn yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Yn Dawel yn ei gartref, 9 Bryn Golau, wedi gwaeldd hir, bu farw Mr Robin Roberts. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Jinnie, ac ag Anwen, Arnold, Malcolm, Beryl ac Adrian, ei blant, a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jinnie Monica Roberts, 9 Bryn Golau, ddatgan ei diolch i'w teulu, ffrindiau'r fro ymhelli ac agos, ac hefyd i'r cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi hi a'r teulu yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid ar drothwy'r Nadolig. Diolch am y llu cardiau, gallwadau ffôn ac hefyd yr ymweliadau personol.

Casglwyd £600 o'r cof, a bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng Meddygfa Waenfaur a Gwasanaeth Ambiwlaens Gogledd Cymru.

Diolch yn fawr iawn i'r Gwasanaeth Ambiwlaens, y meddygon lleol a Heddlu Gogledd Cymru am ddangos pob cydymdeimlad yn ein profedigaeth.

Vn olaf ac yn bennaf, diolch i'r Parohedig J.D. Pritchard am bob arwydd o garedigrwydd ac am ei wasanaeth ar ddiwrnod y cynhebrwng. Hefyd i Mr Gwynfor Jones am y trefniadau trylwyr.

TEITHIO. Wrth glywed am ddigwyddiadau mewn gwahanol wledydd y byd byddaf yn meddwl am bobl Ifanc y pentref, y gwn amdanynt, sydd wedi troedlo tir y gwledydd, ac yn eu hedmygu am eu menter. Rhai fel Iona ac Owena, Garrog Fawr, Llion Iwan, Afallon, Elin Evans, Arfryn, Llion Williams,

Gwernydd, Heddu Gwynedd, Nant a Ffion Edwards, Melin y wig. Ar hyn o bryd mae Nerys Thomas, Stad Tŷ Hen yn teithio o amgylch rhai o wledydd y byd. Dymunwn yn dda iddi ar ei thaith.

Tybed oes rhai eraill, na wn i, wedi bod yn crwydro o amgylch y byd?

YSBYTY. Anfonwn ein cofion am wellhad buan i Robin, Bryn Gwylan, sy'n Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. LLONGYFARCHIADAU. Rydym yn estyn ein llongyfarchiadau i Ffion Edwards, Melin y wig, ar ei llwyddiant yn ennill gradd M.Sc. yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gymdeithas yn Y Ganolfan, nos Lun, 10 Ionawr, pryd y cafwyd sgwrs hynod ddiddorol yn llawn hiwmor gan Mr Henry Jones, Cricieth, ar hen gymeriadau Cricieth. Diolchwyd i Mr Jones gan y Cynghorydd Gwilym O. Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 4 Chwefror pryd y bydd Cymdeithas Bwlan, Llandwrog, yn ymuno â ni mewn Cwis.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mr Doug Jones a theulu Bron Eifion yn eu profedigaeth o golli brawd, Doug. YSGOL WAUNFAWR.

Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco, a charem ddiolch i blant, rhieni a chyfeillion yr ysgol am gyfrannu mor hael at Apêl Tsunami. Casglom £750 yn yr ysgol drwy dalu dirwy am beidio gwisgo gwisg ysgol a chawsom brynhawn o chwarae gemau Nadolig ddydd Gwener, 7 Ionawr.

Yn ystod y tymor diwethaf casglwyd dros £800 at achosion da: £100 tuag at y Clefyd Siwgrwr; £300 at Blant Mewn Angen a £400 tuag at

Eistedfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch drwy gynnal cyngerdd gyda Chôr y Waun. Diolch i bawb am eu haelioni.

Diolch hefyd i Gwmni Recordiau Gwynfryn am drefnu i Meinir Gwilym ddod atom i'n difyr ar ddiwrnod olaf y tymor diwethaf, mae'r plant wrth eu bodd yn cyd-ganu â hi. Diolch Meinir am roi dy amser.

Diolch hefyd i Mrs Sioned Parry am gynnal gwersi pêl-rwyd ar ôl yr ysgol ar bnawn dydd Llun. Bydd tîm yr ysgol yn cystadlu yn Nhwrnament Arfon ac yng Nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd. Dymunwn pob llwyddiant iddynt.

Ni fydd ysgol dydd Gwener, 4 Chwefror, oherwydd diwrnod o hyfforddian ti'r athrawon.

CÔR Y WAUN. Bu'r côr yn canu carolau yng Nghartref Henoed Plas Garnedd, Llanberis, ar nos Sul, 19 Rhagfyr, a chafwyd croeso cynnes dros ben - yn enwedig ar ran John Gwynedd yn sefyll mor agos i'r gwresogydd!

Braf cael dweud bod ein cyfeilyddes, Ann Pritchard, wedi gwella digon i fod gyda ni y noson honno ac hefyd ar gyfer y cyngerdd gyda phlant yr ysgol ar 15 Rhagfyr. Mae'n siŵr fod rhyw atyniad arbennig at Lanberis gan mai yno y cafwyd swper Dolig y Côr yn y Bistro, gyda phawb yn canmol y noson. Ailgychwynnodd yr ymarferiadau ar nos Sul, 9 Ionawr, ac erbyn cyhoeddi'r Eco byddwn wedi bod yn cynnal noson ar gyfer Cymdeithas Capel Peniel, Tremadog, ar nos lau 20 Ionawr.

Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r Côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts, ar (01286) 650128.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CAPEL Y TABERNACL. Nos Fercher, 15 Rhagfyr, daeth plant Ysgol Cwm y glo i'r Capel i gyflwyno drama 'Gwyl y Geni'. Cafwyd cyflwyniad rhagorol iawn gyda phob un o blant yr ysgol yn cymryd rhan. Roedd yn bleser o'r mwyaf gweld y capel yn orlawn. Diolch i brifathrawes yr ysgol, yr athrawesau a'r rhai sydd yn cynorthwyo gyda'r plant am eu hyfforddi a gofalu amdanynt. Diolch am gyflwyniad canmoladwy iawn.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion, gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Enid Price, Stryd Newydd, sydd yn Ysbyty Gwynedd; i Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, sydd yn Ysbyty Maelor Weccsam, ac i Mr Doug Knight, Brodawl, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dr Cassie a Dr Graham Thomas, Min-y-Nant ar enedigaeith merch fach, Ceinwen.

ESTVNIWN ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Ruth Hobby, Gernant, ar ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Megan, yn yr Iseldiroedd (gynt o Lanberis), hefyd i Mr Sylvia Williams, Bwlch, yn ei phrofedigaeth o golli ewythr.

YR YSGOL. Cawsom fis Rhagfyr prysur iawn yma yn yr ysgol.

Bu'r Babanod draw yn Ysgol Dolbadarn i weld sioe bypedau - diolch am y croeso a gawsom yno.

Daeth Mrs Pat Jones, Cae Coch,

i gyfarfod yr Urdd i wneud addurniadau Nadolig gyda'r aelodau. Diolch yn fawr iawn iddi - roeddynt yn hynod o ddeniadol.

Cymerodd pob plentyn ran yn ein Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Tabernacl ble'r aethant â ni ar daith yn ôl i Fethlehem. Gwnaeth pawb ei waith yn dda ac roedd yn noson hyfryd.

Gwnaeth Anti Janet ac Anti Christine ginio Nadolig gwerth chweil i'r plant ac fe drefnodd y Gymdeithas Rieni Athrawon barti mor dda fel y galwodd Siôn Corn ei hun i mewn! Diolch i bawb fu wrthi'n gweithio mor galed ar ran disgyblion yr ysgol.

Enillwyr y Glwb Cant am fis Rhagfyr oedd 1. Gwyndaf Davies; 2. Doreen Roberts; 3. S. A. Winstanley. Llongyfarchiadau i chi.

Rydym yn croesawu Miss Bethan Evans o'r Groeslon atom fel myfyrwraig y tymor hwn. Bydd Bethan yn treulio ei phrofiad dysgu gyda Blwyddyn 5 a 6.

Ar nos Sul, 9 Ionawr, aeth grŵp o blant o'r Adran Iau i gymryd rhan yng Ngwasanaeth y Piygain yn y Gadeirlan ym Mangor. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i Hayley, Grian, Natasha, Emma, Rebecca, Connor, Morus, Dylan, Christopher, Katie a Chloe, ac roeddyn ninnau fel athrawon yn falch iawn ohonynt.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Un, Dau, Tri – Oes Mwy Na Hynny, D'wedwch?



Ie ynte, faint mewn gwirionedd, y medr adar gyfrif? Dyma hanes digwyddiad sydd ar gael yng nghylchgrawn *Y Perl*, Mehefin 1900, t.179, am frân a oedd yn lladrata wyau cywion ieir gwaig ffermwr. Aeth yntau i'r hoewal gyda'i wn i ymguddio, (yn y flwyddyn 1900 roedd hyn yn digwydd, cofiwch da chwi – prynu wyau o'r siop a wna'r rhan fwy' ohonom heddiw!), ond gwelodd y frân ef ac ni ddaeth yn agos.

Y diwrnod wedyn aeth â gwas gydag ef, ac yna anfonodd y gwas allan. Ond gwyddai y frân fod dau wedi mynd i fewn, a dim ond un wedi dod allan ac ni ddaeth yn agos. Call iawn yn wir! Y trydydd diwrnod aeth y gŵr â dau was hefo fo ac aeth un allan ar ôl y llall, ond ni ddaeth y frân o ben y goeden! Yr oedd wedi cyfrif tri yn mynd i fewn, a dim ond dau wedi dod allan. Un cynnig arall amdani, a phenderfynodd yr amaethwr fynd â thri gwas hefo fo i'r hoewal gan eu gyrru allan fcsul un. Gyda bod y trydydd wedi mynd, ebe'r storiwr, dyma'r frân i lawr am y cywion, a dyma ergyd iddi. Nid oedd wedi gallu cyfrif mwy na thri, a thybiodd fod pawb wedi ymada'l â'r hoewal.

Beth a wneud chwi o beth fel 'na?

"D oes y gallu i gyfrif gan unrhyw aderyn..." ydoedd barn bendant un ar Banci Siat Byd Natur, a ddarlledid ar Radio Sain Cymru, ond mae un gwrandawr astud, a llythyrwr tanbaid o Fae Colwyn, yn llwyr anghytuno ag ef ac yn *Cant o Gwestiynau Siat Byd Natur*, (1971) LL74-75, d'wedir ganddo fod llawer iawn o chwarelwyr yn ardal Llysfach a Llanddulas yn

anghytuno'n llwyr â'r gosodiad hwn, gan fod gennym, chwedl yntau, ddigon o brawf fod gan yr wylan a'r goegfran y gallu i gyfrif.

'Arferwn,' ebe yntau, 'weithio'n y chwarel am wyth mlynedd ar hugain, a chefais ddigon o gyfle i sylwi fel yr oedd yr adar hyn wedi dysgu rheolau'r ffrwydro yno. Fel hyn roedd rheolau'r ffrwydro yn gweithredu ar gorn y chwarel:

Rhybudd cyntaf – un pwff byr;

Ail rybudd – dau bwff byr;

Trydydd rhybudd – un pwff hir.

'R oedd y trydydd pwff ar y corn yn parháu nes byddai'r holl saethu drosodd. Wedi i'r saethu orffen, rhoddid tri chwa byr i gyhoeddi All Clear a bod y ffrwydro drosodd. Roedd cannoedd o adar yn nythu ac yn cartrefu yn y chwarel oddi amgylch ac yr oeddynt i gyd yn ymateb yn yr un modd, fel a ganlyn:

Ar y rhybudd cyntaf: cyffro byr. Cwmwl du a gwyn o wylanod yn codi'n sydyn oddi ar wyneb y graig. Ac yna'n ôl ar y clogwyn – fel pe bai dim wedi digwydd. Ar yr ail rybudd, dim ond cyffro byr eto. Ond ar y trydydd pwff, i ffordd â hwy i gyd allan am y môr, yn ddigon pell a diogel. Ar ôl y tri phwff byr oedd yn dynodi'r All clear, gwelid hwynt yn dychwelyd yn ôl yn hamddenol.'

Yn y rhifyn nesaf o *Eco'r Wyddfa* hwriadaf, os byw ac iach, fynd ymhellach ar drywydd yr 'un, dau, a'r tri' na ym myd adar. Yn y cyfamser beth am daro brawddeg neu ddwy ataf os oes tystiolaeth ar gal gennych bod adar, yn wirioneddol felly, yn medru cyfrif. Fy nghyfeiriad: Y Nyth, Neuadd Glasgoed, Llanrug, Gwynedd LL55 3BB. Diolch!

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

FE HOFFAI Iona Richards, 5 Tai Caradog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd pan yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

APÊL TRYCHINEB DE-DDWYRAIN ASIA. Dymuna Cyngor Eglwys Deiniolen, a drefnodd y dydd o roddion at yr apêl uchod ddydd Gwener a dydd Sadwrn, 7 ac 8 Ionawr, ddiolch am bob cyfraniad. Derbyniwyd y swm o £1,693. Oherwydd y tywydd garw, penderfynwyd trefnu cyfle arall i bobl gyfrannu at yr Apêl, sef dydd Gwener, 28 Ionawr yn Nhŷ Elidir, o 10am-12pm, ac o 2pm-4pm.

Bydd cyfle hefyd i gyfrannu yn oedfa'r hwyr yng Nghefnywaun am 5 o'r gloch nos Sul, 30 Ionawr.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Y mis Tachwedd, Mr Richard Jones o Glynnog ddaeth i'r Gymdeithas, i sôn am sut y daeth yr Amgueddfa Werin yn Sain Fagan i fod, ac am y gwaith o roi ar gof a chadw, hanes ein cenedl. Bu yno ar amser cyffrous cyn symud yn ôl am y gogledd, ac i warchod Yr Wybrnant, cartref yr Esgob Wiliam Morgan. Diolchwyd i Mr Richard Jones am noson hynod hanesyddol.

Ddechrau mis Rhagfyr aeth yr aelodau am ginio Nadolig i westy'r Padarn Lake yn Llanberis.

Mis Ionawr, cafwyd noson o atgofion am ardal Deiniolen, yn anffodus nid oedd Mrs Margaret Cynfi Griffith, sydd yn aelod o'r Gymdeithas, yn gallu bod yn bresennol i gyfrannu i'r noson. Aethpwyd trwy lyfr hynod ddiddorol Mr Glyn Tomos, *Atgofion Mr W.M. Hughes, Y Rhiwen* (cyhoeddwyd 1987) am ei gwmni moduron, a chymeriadau'r ardal a'r eglwys. Cafodd yr aelodau gyfle i 'Foes a Phryn' cyn troi am adref. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Jennie Williams a Mrs Eurwen Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 7 Chwefror, am saith o'r gloch yng nghwmni y Darpar Archdderwydd, Selwyn Iolen, bydd croeso cynnes i bawb.

Nos Sul, 5 Rhagfyr, cafwyd

Cyngerdd yn yr Eglwys gyda thalentau lleol yn cymryd rhan. Arweiniwyd y noson yn fedrus gan Mr Glyn Tomos o Ddinorwig, ond yn awr wedi ymgartrefu yn nhref Caernarfon. Cyfrannodd Seindorf Arian Deiniolen, Lindsey Vaughan Parry, Heledd Jones, Trystan Morris, Elin Mai Jones, Manon Jones, Daniel Taylor a Jenny Lyn, gyda'r cyfeilyddion Mrs Glenys Griffith a Mr Hugh Foulkes, i lwyddiant y noson. Methodd y Llywydd, sef Mrs Margaret Roberts, Yr Wyddgrug, gynt o Ddinorwig fod yn bresennol. Diolchwyd am noson a fwynhawyd gan bawb, y Seindorf, a thalentau hynod yr ardal, gan y Parchedig Deiniol Morgan.

Mawr oedd ein dyled i ferched yr Eglwys am werthu rhaglenni a pharatoi lluniaeth. Diolchwn i Mrs Eileen Hughes, am drefnu noson mor llwyddiannus.


Nos Sul cyn y Nadolig, cafwyd gwasanaeth y Cristingl o dan nawdd Cyngor Eglwys Deiniolen. Cymerwyd rhan gan aelodau a phlant y Capeli a'r Eglwys i'r ardal.

Y Parchedigion John Pritchard a Deiniol Morgan oedd yng ngofal y noson. Diolch am noson oedd yn ein paratoi am Wyl y Geni.

GWASANAETHAU MIS CHWEFOR.

6: 2pm Gwasanaeth Teuluol
5.30pm: Cymun Bendigaidd
13: 8.30pm Cymun Bendigaidd
20: 5.30pm: Hwylol Weddi
27: 8.30pm: Cymun Bendigaidd

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun




Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

BLWYDDYN NEWYDD DDA. A ninnau unwaith yn rhagor ym mis cyntaf blwyddyn 2005, mae rhywun yn gorfod gofyn i ble yr aeth y flwyddyn ddiwethaf? Blwyddyn yr oedd rhai yn falch o'i gweld yn mynd. Blwyddyn yn llawn o drychinebau mawr a llawer iawn o sôn am ryfel. Does dim ond gobeithio y bydd i bawb gael blwyddyn well eleni, ym mhob ystyr, felly ga i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb ym mro'r Eco.

EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Gan ein bod erbyn hyn wedi cyrraedd y flwyddyn y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r fro, a hithau wedi dod yn amser cyfrif y misoedd, ga i ofyn a oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu ati? Byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniadau, bach neu fawr. Gellir anfon eich rhoddion i'r Trysorydd, Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Diolch am y rhoddion sydd wedi dod i law yn barod, a llawer o ddiolch i blant yr ardal sydd oddi cartref am ein helpu drwy eu rhoddion hwythau.

ADREF O'R YSBYTY. Yr oedd yn ddrwg iawn gennym glywed fod Mr Rex Faulkner, Fron Dirion, wedi gorfod mynd i'r ysbty yn ystod y gwyllau, ond erbyn hyn da deall ei fod adref. Gobeithio y bydd iddo gael adferiad llwyr.

Y STORMYDD. Cafwyd gwynt cryf a glaw yn ystod y gwyllau a'r dyddiau diwethaf. Cawsom Nadolig gwyn a llawer o ddiolch i Gyngor Gwynedd am ddod i fyny yma i roi graean ar y ffordd fel bod y rhai oedd wedi paratoi i fynd allan i ginio yn gallu mynd, a'r rhai oedd mor anffodus o orfod mynd i weithio, yn gallu mynd a dod adref wedyn.

Hefyd yn ystod penwythnos 8-9 Ionawr, deallaf fod un rhan o'r ardal wedi bod heb drydan am ddiwrnod a hanner. Y gŵyn gyffredinol oedd, os oeddech yn ddigon lwcus i fedru mynd trwodd i Scottish Power, gorfod dal y lein am tua chwarter awr neu fwy a hyn yn creu costau diangen. Tybed a fuasai modd cael rhif lleol pan y mae angen ffonio pan fydd argyfwng yn taro?


Hefyd, ers pan y mae BT wedi bod yn rhoi y gwifrau o dan y ddaear y mae dŵr enbyd yn sefyll ar y ffordd. Y gwaethaf yw'r dŵr ger Pen Dyffryn, y mae llyn yma a dyn a ŵyr beth a ddigwydd pe bai yn rhewi. Yr wyf yn deall fod gweithwyr y cyngor wedi bod yn edrych ar y sefyllfa ond mae gennyf ofn bod rhaid edrych eto. Mae'n fater o wneud rhywbeth yn lled fuan, cyn i ddamwain ddigwydd.

Deallaf hefyd fod nifer o dai yn yr ardal wedi cael dŵr i'r tŷ a dipyn o lanast ar ôl y stormydd. Gobeithio na welwn gymaint o law eleni eto ac y bydd i bawb a ddioddefodd oddi wrth y storm ddod i ben â threfniadau i atgyweirio'r difrod. Gobeithio am well blwyddyn.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYNNIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydynnig.co.uk



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensys ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01206) 650349
(0589) 899901

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Mae'r Cyngor eto eleni yn estyn gwahoddiad i fudiadau gwirfoddol lleol wneud cais am gymorth ariannol o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor. Cyfyngir y ceisiadau i fudiadau lleol neu fudiadau sy'n gweithredu'n lleol. Dylid anfon cais a mantolenn ariannol cyn yr 11eg o Chwefror, 2005.

Anfonwch at Clerc Cyngor Cymuned Llanberis (E),
Ty'n Twll, Nantpcriis,
Caernarfon. LL55 4UL.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

CÔR MEIBION. Fel pob côr arall, bu'r Côr yn ddygn iawn yn ystod mis Rhagfyr. Ar y 5ed cynhaliwyd, ynghyd â Llesiau Lliwedd a Chôr Plant Ysgol Dolbadarn, gyngerdd yng Nghapel Coch er budd yr Eisteddfod Genedlaethol. Y Sul canlynol, y 12fed, cafwyd cyngerdd gyda Band Deiniolen yn yr Oriel - lle casglwyd arian tuag at CLIC (Canser mewn plant).

Yn ogystal â'r cyngherddau, ymwelodd y Côr â Chartref Bron Eryri ar y 13eg a thrigolion Hafan Elan, Llanrug ar y 5ed. Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Côr yng Ngwesty Dolbadarn ar y 17eg.

Mae'r Côr wedi ailgychwyn ymarferion, ac os dymuna unrhyw un ymuno â'r Côr mae'n debyg mai nawr yw'r amser gorau i wneud hynny, gan ein bod ar fin dechrau gyda nifer o ddarnau newydd. Cysylltwch â Hefina Jones (871006) am fwy o fanylion.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

LLEISIAU LLIWEDD. Bu mis Rhagfyr yn gyfnod prysur iawn i'r Côr.

Treuliwyd aml i noson yn diddanu ymwelwyr Gwesty'r Quality yn Llanberis. Ar y pumed o'r mis bu'r Côr, ynghyd â Chôr Dyffryn Peris a phlant Ysgol Dolbadarn, yn cynnal cyngerdd yng Nghapel Coch, gyda'r elw'n mynd at Eisteddfod Eryri, 2005.

Treuliwyd noson ddiddorol yn Eglwys St Peris ar Ragfyr 19, pryd y cynhaliwyd noson o garolau a darlenniadau o farddoniaeth Nadoligaidd, gyda sieri a mins peis i ddilyn yn Ty'n Llan. Diolch i Ann a'r criw am y croeso.

Bu'r Côr yn diddanu trigolion Plas Pen Gwaith ar Ragfyr 12. Treuliwyd noson hapus iawn a braf oedd gweld rhai o'r trigolion yn ymuno yn y canu. Diolch i'r staff am y lluniaeth a'r croeso.

Ar Ragfyr 13 cynhaliwyd parti i'r plant â chysylltiad ag aelodau'r Côr yn festri Capel Coch. Diddanwyd y plant gan y consuriwr, Mr Howard Hughes o Fangor.

Daeth gweithgareddau'r mis i ben gyda chinio Nadolig yng Ngwesty Padarn Lake gyda adloniant Kareoke yng ngofal Raymond.

Yn ystod y tymor, cyflwynwyd rhoddion gan y Côr i'r elusennau canlynol: £50 i Ysgol Pendalar; £50 i NACG, trwy law Edryd Sharpe; £50 i Dr Mererid Owen at ymchwil cancr y fron; £50 i Gronfa Neuroanthocytosis trwy law Mr a Mrs Gordon Parry, Pen-ar-lag, a £100 i Gronfa Apêl De Ddwyrain Asia.

Vn olaf, hoffem ddiolch i Joyce ac Anti Eunice am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd drwy'r flwyddyn a dymunwn flwyddyn newydd da i bawb o'n cyfeillion yn 2005.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Nos Fawrth, 14 Rhagfyr, cafwyd noson o Garolau a Darlenniadau'r Nadolig dan arweiniad y Parchedig John Pritchard. Cafwyd paned a mins

peis wedi eu darparu gan y merched.

Nos Fawrth, 4 Ionawr, cafwyd Cyfarfod Gweddi i ddechrau'r flwyddyn o dan ofal y Parchedig John Pritchard. Cymerwyd rhan gan rai o aelodau'r gymdeithas.

Y cyfarfod nesaf fydd ar nos Fawrth, 1 Chwefror am 7 o'r gloch yn Festri Capel Coch. Y gŵr gwadd fydd y Parchedig Harri Parri, Caernarfon. Croeso cynnes i'r aelodau.

EGLWYS ST PADARN. Braf iawn oedd gweld yr eglwys yn llawn ar 19 Rhagfyr pan gynhaliwyd gwasanaeth o Garolau a Christingl, gyda'r adeilad wedi ei oleuo gan gannoedd o ganhwyllau. Cymerwyd rhan gan aelodau o'r gynulleidfa, gan gynnwys parti o oedolion, organydd ieuanc, Iwan Wyn Williams, ac unawdau gan Mrs Susan Williams. Rhannwyd orenau'r Cristingl gyda'r canhwyllau i'r gynulleidfa ac fe ganwyd y garol olaf i olau'r canhwyllau yn unig - awyrgylch arbennig a gwefreiddiol. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ysgafn Nadoligaidd wedi ei drefnu gan y Parch Deiniol a Mrs Helen Morgan, gyda chymorth parod amryw o'r gwragedd. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb a gymerodd ran, i'r rhai a fu'n addurno'r eglwys, yn gosod y canhwyllau a'r rhai a fu'n darparu'r lluniaeth.

Ysgol Sul. Mae'r Ysgol Sul wedi'i hail ddechrau ac yn cyfarfod am 10.15 bob bore Sul yn Nhŷ St Padarn (drws nesaf i'r Rheithordy). Mae croeso cynnes iawn i blant ac oedolion. Cysylltwch â'r Parch Deiniol Morgan (873678) am fanylion pellach.

Cyngherdd ar Wyl St Ffolant. Mae parti o unawdwyr o St Petersburg, Rwsia, yn cynnal cyngerdd yn yr eglwys, fel rhan o daith gerddorol drwy Brydain, ar nos Lun, 14 Chwefror. Bydd y rhaglen yn cynnwys eitemau clasurol ac alawon gwerin. Pris mynediad wrth y drws fydd £3 i oedolion a £2 i blant.

GANGEN ELUSENNOL LLANBERIS. Bu'r flwyddyn 2004 yn gyfnod prysur a llwyddiannus yn hanes y gangen uchod.

Trwy gynnal Boreau Coffi yn y Bistro, Llanberis, llwyddwyd i gasglu'r swm anrhydeddus o £1,326.90c i wahanol fudiadau brawdgarol.

Y mae Mattie a Delyth Hughes, y Trefnyddion, yn gwerthfawrogi cefnogaeth a charedigrwydd pobl y pentref.

Diolch yn arbennig i Danny a Nerys Roberts am gael cynnal y gwaithgareddau a derbyn haelloni di-ben-draw yn y Bistro bob amser.

DYMUNA NSPCC Bro Peris ddiolch i Mrs Mattie Hughes a Mrs Delyth Hughes am eu cyfraniad o £100 at yr achos wrth gynnal Bore Coffi yn y Bistro. Diolch hefyd am eu hymdrech trwy'r flwyddyn a hefyd i Danny a Nerys am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

LLYFR NEWYDD. Y llyfr diweddaraf gan Emily Huws, Tyddyn Llwyni, yw *Eco* (a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Lyfrau Ceredigion am £4.99) sy'n trafod themâu'r amgylchedd. Mae'r llyfr yn anelu at ddod â'r amgylchedd yn agosach at brofiad plant Cymru.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymdeoliad.

RAFFL FAWR. Enillwyr Raffl Fawr Apêl Canolfan y Capel, Caeathro oedd: 1. Gwyliau (*Rhodd Seren Arian*): Jeanne, d/o Bryngwna; 2. Hamper Nadolig (*Garej Gwalia*): Dei Williams, Edern; 3. Voucher Garddio (*Gerddi Seiont*): d/o Penlon Bach, Aberffraw; 4. Mynediad i Goed y Sipsiwn (*John Evans*): Michelle, Ellesmere Port; 5. Llun o Gaeathro (*Richard Jones*): Mrs K. Williams, Llanwnda; 6. Merlota (*Snowdonia Riding, Waunfawr*): Davies Hughes; 7. Voucher i brynu nwyddau (*Kwiksave*): Kevin, Sea View, Caeathro; 8. Coes o gig oen (*Rhys Evans*): Bob, Sŵn y Gwynt, Caeathro; 9. Voucher Bwyta (*Gwesty'r Celt*): Ann, 7 Erw Wen; 10. Pêl-droed tîm Cymru (*Ifor ac Alwen Hughes*): Evelyn Jones, d/o Bryn Eden.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r rhoddwyr, prynwyr, gwerthwyr a'r enillwyr oll am eu cefnogaeth.

PWDIN DOLIG. Digwyddiad newydd yn y pentref dros y Nadolig oedd cystadleuaeth blasu pwdin

Dolig ar noswyl Nadolig yn nhafarn Bryngwna. Ym marn y blaswyr, yr enillydd oedd Ian, hefo Shaun yn ail ac Alun yn drydydd.

PÊL-DROED. Erstalwm, un o draddodiadau'r fro oedd y gemau pêl-droed pob Nadolig a'r Pasg rhwng hogiau Caeathro a hogiau'r Waun. Eleni trefnwyd gornest ar gyfer Gŵyl San Steffan, ond roedd gan Mri MANWEB syniadau eraill. Felly roedd angen ad-drefnu'r gêm tan dydd Sul cyntaf y flwyddyn newydd.

Aeth y gystadleuaeth ymlaen hefo ymdrechion caled gan y ddau dîm. Y canlyniad? Caeathro 2 - Waunfawr 2 oedd y sgôr derfynol a dim ond 8 yn nhîm Caeathro. Diolch yn fawr i Gareth Griffiths, Annedd, am drefnu. Gobeithiwn y bydd gemau eraill dros y blynyddoedd sy'n dod.

MARWOLAETH. Ar 3 Ionawr, yn sydyn yn yr ysbyty, bu farw Margaret Jones, Ysbyty, gwraig Cledwyn. I Gaeathro roedd hi'n cael ei nabod fel siopwraig post a siop y pentref ar ben Tai Glangwna. Yn ogystal roedd hi'n ddawnsraig o fri ac yn gefnogol i waith 'Cled' yn y byd pysgota afonydd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll.

ADRODDIADAU BLYNYDDOL. Ar hyn o bryd nid oes gan Gapel Caeathro gyfres llawn o hen adroddiadau blynyddol. Pe bai gan rhywun gopiâu ac yn fodlon eu rhoi i archif y pentref er mwyn cofio'r sawl a fu, gofynnwn iddynt gysylltu â Clive James, Hafan.

ENILLYDD y cwis i'r plant hyd adeg Parti Nadolig y plant yng Nghanolfan y Capel oedd Osian, Bryn Mair.

DIOLCHIADAU. Dymuna pensiynwyr Caeathro a Rhos Bach ddiolch i Bwyllgor Cae Chwarae Caeathro a hapchwaraewyr y Tynfa Misol am eu cardiau a bonws adeg Nadolig. Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd.

TYNFA MISOL CYMEITHAS Y CAE CHWARAE. Yr enillwyr ar gyfer mis Ionawr oedd £40: (37) Ceri Roberts, 1 Hen Gapel; £25: (100) Hugh Jones, 22 Tai Glangwna; £15: (24) Ellen Burke, 3 Caeathro Bach; £10: (10) Dafydd Morris, Frondeg.

Diolch i haelioni'r hapchwaraewyr, roedd y Pwyllgor yn medru trefnu a thalu am fonws Nadolig y pensiynwyr, parti ac anrheg Nadolig y plant iau a chodi a goleuo'r coed Nadolig ar gyfer canu carolau.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol yn ystod mis Chwefror.

6 10.00: Mr Richard Jones

11.00: Ysgol Sul

13 11.00: Ysgol Sul

20 2.00: Parch Iorwerth Jones Owen

27 Dim gwasanaethau.

Llywydd y mis yw Deiniol Huws, Ty Mawr (672998), a'r organydd yw Bethan Iwan, Carrog. Croeso i bawb.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Dodrefn Da am Bris Discount

THE SALES HALL

Y NEUADD ARWERTHIANT

CWM-Y-GLO

Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: LLUN - SADWRN 10.30 - 5 p.m.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

Bysiau o 12 i 53 sedd

Teithiau Lleol a Thramor

Gwaith Contract

Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Wavell Roberts

CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu
e-bost: williams@parliament.uk

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Gwasanaeth y tu allan i oriau Meddygon teulu Rhif y gwasanaeth yw 0845 850 1362. Mae trefniadau newydd mewn bodolaeth ar gyfer y gwasanaeth yma ac mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn gwahodd sylwadau'r cyhoedd am y chwe mis nesaf. Os oes gennych gwyn neu ganmoliaeth buasai'ch Cyngorydd Cymuned neu'r Clerc yn falch o gael gwybod.

Trychineb De Ddwyrain Asia Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r holl ardalwyr a fu môr hael a gweithgar yn cefnogi'r ymgyrch.

Cyfarfu'r cyngor nos Fawrth yr llog o Ionawr. Gweddiwyd i ddechrau'r cyfarfod gan Richard Llwyd Jones.

Materion o Gofnodion Rhagfyr Biniau Baw Cwn. Darllenwyd llythyr Timothy J. Hughes, Gwynedd, bod angen tri lleoliad ar hyn o bryd a bydd mwy o nifer ar gael yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Penderfynwyd ar: Lon Tre Gôf, Bethel; Llwybr at y Bont/Cae Chwarae, Clwt y Bont; Lôn Bach Awyr, Rhiwlas.

Canolfan Byd Gwaith. Ateb o'u swyddfa yn Aberhonddu i lythyr y Cyngor at yr Ysgrifennydd Gwladol; Bydd y swyddfa ym Mhorthmadog yn dal ar agor, y gwaith prosesu budd-daliadau fydd yn symud i Wrecsam. Sefydlir swyddfa gyda 250 o seddau ym Mharc Menai, Bangor.

Afon Goch, Deiniolen. Llythyr Mr Aled Gibbard, Cyfadran Gofal Gwynedd, yn egluro mai cwmni 'Arolygaeth Safonau Gofal Cymru', Bae Colwyn, sy'n gyfrifol am y cartref yma. Dywed Mr Gibbard hefyd ei bod yn ofynnol i Awdurdod Lleol sy'n lleoli plant mewn ardal arall roi gwybod i Awdurdod Lleol yr ardal honno. Bwriada ysgrifennu at y Cartref i amlygu hyn. Penderfynwyd aros am y canlyniad.

Golau Cyhoeddus ger Gors Bach. Mae'r gosodiad wedi ei gwblhau a chyfraniad y Cyngor wedi ei dalu.

Comisiwn Ffiniau i Gymru. Daeth dau ateb i'n sylwadau ar y bwriad i symud ffiniau etholaethau Cymru. Y cyntaf o Swyddfa'r Dirprwy

Brifweinidog yn dweud na allant weithredu hyd nes dechreu adroddiad y Comisiwn, a'r llall oddi wrth Y Comisiwn yn dweud yr ystyrir ein sylwadau pan fydd y Dirprwy yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Cysgodfan bws Rhiwlas. Ateb Gwynedd nad oes cyllid ar gyfer y gosodiad ar hyn o bryd ond bod posibilrwydd o grant 50% o

Gronfa Gwella Gwynedd. Trafodwyd cyflwr y cysgodfannau yn gyffredinol, maent yn darged fandaliaeth. Byddai eu hatgyweirio bob tro yn gôst ddi-ddiwedd. Penderfynwyd gofyn i Mri G. L. Jones eu gwneud yn ddiogel, o ran cyfrifoldeb diogelwch y Cyngor. Hefyd gofyn i Wynedd am fanylion cysgodfannau diweddarach sy'n anoddach eu fandaleiddio.

Corlan y Bont, Deiniolen. Ateb Mri. Spencer Parry Williams eu bod am osod llwybr dros dro heibio i'r gwaith, hefyd bod y gwliau yn y lôn wedi eu cau gan ro o ganlyniad i'r stormydd - llythyr i Wynedd.

Gohebiaethau Eraill

Gwasanaeth Swyddfa'r Pôst. Amlygodd Phyllis Ellis bod trafferthion yn dal i fod yn y gwasanaeth pensiynau. Bu'r system gyfrifiadurol i lawr eto cyn y Nadolig a rhai wedi methu cael eu harian. Mae'n anodd i rai ocdolion ddeall sut i ddefnyddio PIN ayyb. - Llythyr eto at y Swyddfa Bost.

Trêth Cyngor 2005/06. Gwahoddiad i gynrychiolwyr Cyngorau Cymuned i drafod hyn. Cyfarfod ym Mhencadlys Gwynedd, Caernarfon ar y 9ed o Chwefror am 6.30.

Gwirfoddolodd Elspeth Mitcheson a Phyllis Ellis i'w fynychu ar ran y Cyngor.

Post Clwt y Bont. Amlygwyd bod blychau storio wedi eu lleoli yn y maes parcio dros y ffordd i'r Post ac un gyferbyn a ffenestri'r Tŷ Capel. Gofyn i Wynedd a oes hawl i hyn. Llwybr cyhoeddus. Dros dro bydd y rhwystrau parcio o flaen y Post.

Llifogydd. Dywedodd Len Jones ei fod wedi trafod lleoliadau fel Porth y Gogledd a Gallt y Foel gyda Steffan Jones, Gwynedd, ond nid yw'n eglur pa gyfrifoldeb sydd ar berchnogion tir. Penderfynwyd gofyn i Wynedd beth yw eu canllawiau ar orfodi perchennog tir neu ffermwr i ail agor ffosydd.

Gwaelod ffordd Rhiwlas. Hefin Williams yn gofyn i'r Cyngor bwyso ar Adran Ffyrdd Gwynedd i wella'r sefyllfa llifogydd yma. Cadarnhawyd y sefyllfa gan Elspeth Mitcheson gyda wyth llun o'r ffordd dan ddŵr. Penderfynwyd danfon y lluniau i Wynedd gan geisio ymateb buan.

Llwybrau

Dublin House, Dinorwig. Ateb Gwynedd eu bod am gysylltu â'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad ynglŷn â pherchnogaeth y lleoliad. Dywedodd Phyllis Jones bod dŵr ar llwybr 128 o Capel Dinorwig i gyfeiriad

Pen'rallt oherwydd bod pibell ddŵr wedi cau - llythyr i Wynedd.

Tanyrhenffordd / Tŷ'r Efail, Clwt y bont. Ateb Gwynedd i'r cais am olau cyhoeddus ar y llwybr, byddai'r gost yn £2,200. Llwybr 74 Rhiwlas. Hefin Williams yn dweud bod dŵr dwfn ar y llwybr ychydig lathenni heibio i giât Carreg y Gath (angen agor ffos) - llythyr i Wynedd.

Cyfeiriodd Len Jones at amryw o gwynion llwybrau a ddanfonwyd i Wynedd eisioes, addawodd y clerc atgoffa Gwynedd o lythyrau heb eu hateb.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Stordy Olew gyferbyn â Rheilffordd llyn Llanberis, Parc Gwledig Padarn.

Estyniad: Maes y Dderwen, Bethel.

Codi tŷ i weithiwr: Cae Coch, Bryn'refail (08/12/04)

Depo Bysiau: Tyddyn Badin, Pentir.

Adroddiadau

Dywedodd Phylip Jones bod Dŵr Cymru, o bosibl, yn gollwng dŵr o lyn Marchlyn Bach yn ystod llifogydd ac yn gwneud y sefyllfa'n waeth. - Llythyr ymholi i'r Bwrdd.

Yr Heddlu. Cyfeiriodd Huw P. Hughes at yr holl gamymddwyn sy'n digwydd ym Methel, yn enwedig ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Dywedodd Len Jones bod rhywrai wedi gosod poteli gwydr wedi eu torri yng ngwynch cae pêl-droed Deiniolen a'r toriad gwydr am i fyny. Trafodwyd camymddwyn a fandaliaeth yn gyffredinol a phenderfynwyd ysgrifennu at y Prif Gwnstabl a danfon copi at Y prif Uwcharolygydd Gareth Prichard ac Eira Huws, Swyddog Diogelwch Cymunedol, Cyngor Gwynedd. Cynnwys y llythyr:

Amlygu siomedigaeth o wasanaeth yr Heddlu. Nid yw'r cynllun Rhcolwr Rhawd Cymunedol yn gweithio. Beth

yw amserlen y rheolwr rhawd yng Nghymuned Llanddeiniolen? Ym mha ardaloedd y mae'r rheolwr wedi bod? Pam nad oes rheolwr rhawd ar gael gyda'r nos? (ar ôl 08.30). Be fydd y polisïau a pha adnoddau fydd ar gael i'r dyfodol? Mae'r cyhoedd wedi peidio adrodd am gamymddwyn i'r Heddlu am nad ydynt yn ymateb. Y Cyngorwyr sy'n derbyn y cwynion erbyn hyn, nifer fawr o alwadau ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Oherwydd hyn, geiriau un Cyngorydd Cymuned a Sir oedd 'Rwy wedi cyrraedd pen fy nhennyn.'

Efallai bod yr ystadegau yn dangos gostyngiad mewn drwgweithredu yn y trefydd oherwydd camerau a.y.y.b. mae'r drwgweithredwyr, bellach, yn heidio i gefn gwlad a'r plismyn yn dal yn y trefi.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Iaf o Chwefror.

DRAENOG

Gwawr Wedi Hirnos!

Aeth baswr enwog a'i wraig o Lanberis draw i'r Cobden's yng Nghapel Curig cyn y Nadolig i fwynhau cyngerdd yn y gwesty enwog. Aeth yn noson hir a 'gwlyb' ac yn gall iawn fe benderfynodd y ddau mae'r peth doetha i'w wneud fyddai bwcio stafell yn y gwesty. Yn anffodus dim ond un stafell oedd ar gael, a dim ond un gwely sengl ynddi! Mentro oedd raid ac fe aeth popeth yn DIJERIDW tan tua tri yn y bore. Yna, clywyd clec yn diaspedain trwy'r fro! Disgynnodd y gŵr yn glewt ar lawr y llofft gan ddeffro pawb. Roedd TYLLUANOD Capel Curig hyd yn oed wedi dychryn a phob TITW TOMOS LAS o fewn cyrraedd wedi dechrau hedfan cyn iddi wawrio!

Lle cafodd y Draenog y wybodaeth medda chi? Wel, gan MR. PŴY A WŶR, wrth gwrs!

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLVNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES


BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

YSGOL BRYNREAIL

Gwobrwyo




Gwion, Dyfan ac Elena gyda'u gwobrau.

Dyma dri disgybl llwyddiannus o Flwyddyn 7 a enillodd wobrau'r pynciau craidd am y tymor cyntaf yn Ysgol Brynrefail. Enillydd y Wobr Fathemateg oedd Dyfan Coles, enillydd y Wobr Saesneg oedd

Gwion Dafydd Aubrey ac enillydd y Wobr Gymraeg oedd Elena Owen. Derbyniodd y tri ohonynt docyn llyfr (yn rhoddedig gan Siop Palas Print) Da iawn chi.

Hybu Darllen Blwyddyn 8



Disgyblion Blwyddyn 8 gyda actorion Cwmni'r Frân Wen.

Yn ddiweddar daeth Cwmni Drama'r Frân Wen i'r ysgol er mwyn hybu darllen gyda disgyblion Blyddyn 8. Dyma adroddiad rhai o ddisgyblion 8 '0' am yr ymweliad:

Roedd y siocau i gyd am nofelau Cymraeg - *Snogs a Sgribls Hogan Fler*, *Noson Boring i Mewn*, *Y Fo yn y Tŷ* a *Beicio yn y Gwaed*. Roedd pob cyflwyniad yn dda ac yn ddoniol gyda'r actorion yn dod â'r cyfan yn fyw a flaen ein llygaid. Roedd gwyllo'r perfformiadau yn gwneud i mi fod eisiau darllen y llyfrau.

ROBYN GREEN

V rhan orau gen i oedd pan oedden nhw yn perfformio *Snogs a Sgribls Hogan Fler* - roedd o'n ddigri iawn pan oedd yr actor yn dynwared y fam ar y ffôn yn siarad.

LEWIS JONES

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd

Wel, am fwynhâd! Pedwar llyfr hynod yn cael eu hadrodd mewn pedair sgets fywiog a llawn hwyl!! Yr un aeth â'm bryd i oedd *Y Fo yn y Tŷ* am ei fod yn gwneud i wallt eich pen godi!!!

LIAM TAYLOR

Llwyddodd yr actorion i dynnu sylw pawb - hyd yn oed yr hogiau!! Roedd pawb yn bendant yn mwynhau. Rwy'n credu mai *Snogs a Sgribls Hogan Fler* a apeliodd at y rhan fwyaf o'r disgyblion - mae hi ar fenthg o'r llyfrgell bob tro beth bynnag!!

ENFYIS ROBERTS

Stori am ferch ifanc yn meddwl ei bod yn feichiog oedd *Snogs a Sgribls Hogan Fler*. Roedd *Noson Boring i Mewn* y gyfres o straeon byrion gan wahanol awduron. Hanes bachgen ifanc eisiau beic modur sydd y tu ôl i *Beicio yn y Gwaed*, a stori arewydus tu hwnt sydd yn *Y Fo yn y Tŷ*. Rhywbeth i apelio at bawb dw i'n siŵr!!

GETHIN GREEN

Parti Nadolig Ysgol Pendalar

Deufis prysur iawn oedd Tachwedd a Rhagfyr i fyfyrwyr y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail. Mae'n wir i ddweud fod llawer un ohonom wedi bod yn poeni a phryderu tuag at y diwrnod mawr yn ein calendr ysgol, sef y pymthegfed o Ragfyr - diwrnod Parti Nadolig Pendalar.

Fe hedfanodd y deufis yma, a hithau'n bymthegfed mewn dim o amser. Roedd y gwaith ddi-ddiwedd o drefnu, casglu arian, prynu a lapio'r presantau a'r holl banig wedi dod i ben. Diwrnod y parti oedd hi yn awr, diwrnod i fwynhau a gweld yr holl waith caled yn plethu at ei gilydd a chreu diwrnod bythgofiadwy.

Dim ond dwy swydd hanfodol arall oedd i'w gwneud, sef coginio ac addurno. Bu'r athrawesau arlwy, myfyrwyr y chweched a disgyblion o'r ysgol wrthi fel lladd nadroedd yn coginio pob lliw a llun o felysion amryliw. O gacennau i selsig a bisgedi i frechdannau. Roedd gwledd yn disgwyl y plant, digonedd o fwyd hyd at barti y flwyddyn nesaf rwyd siŵr! Tra yr oedd rhai o fyfyrwyr y chweched yn slafio uwchben stôf boeth, roedd eraill yn chwysu chwartaiau ar ben ysgolion wrth addurno'r neuadd a'r ffreutur ac yn holl bwysig, y goeden Nadolig!

Ymhen hir a hwyr cyrhaeddodd bysiau Pendalar iard ein hysgol, ymgasglodd pawb yn y neuadd tra ymwelodd seren Bethlehem â ni, sef Mr Edward Morris Jones. Roedd Edward, heb os nac oni bai, yn seren ein diwrnod ni, llwyddodd i greu awyrgylch gwych yn y parti drwy ganu caneuon a dawnsio. Roedd ymateb y plant y gorau eto, roeddynt i gyd yn ymuno ag Edward, yn canu yng nghanol yr holl chwerthin hapus. Diweddodd y sesiwn gyda phawb ar lawr y neuadd yn dawnsio i ganeuon egniol Edward. Di-derfyn yw ein diolch i Edward am ei

ymroddiad a'i egni drwy gydol y dydd.

Gwaith llwglyd oedd yr holl ddawnsio a chanu ac erbyn hyn roedd pawb yn ysu am gael mwynhau y wledd oedd yn y ffreutur.

Ond roedd cyfnod mwyaf cyffrous y diwrnod yn dal i ddod, ar ôl cinio disgwyliai pawb yn bryderus am ymweliad gŵr pwysig iawn sef Siôn Corn. Wrth lwc fe ddaeth i'n gweld a dosbarthodd ei gorachod anrheg i bawb. Roedd yr olwg ar wynebau'r plant yn werth eu gweld. Coronodd ymweliad Siôn Corn y diwrnod llawn hwyl.

Balchder yw cael cyhoeddi fod parti Nadolig llwyddiannus iawn wedi cael ei gynnal ym Mrynrefail unwaith eto eleni. Rydym ni fel myfyrwyr y chweched yn elwa cymaint wrth drefnu parti fel hyn, ond heblaw am yr elwa mae'n fwynhad llwyr. Rydym yn edrych ymlaen at barti'r Nadolig nesaf yn barod!

Hoffwn ddiolch o waelod calon i'r holl ddisgyblion, myfyrwyr y chweched ac athrawon a gyfrannodd tuag at lwyddiant y parti. Hefyd diolchaf i'r holl bobl a busnesau lleol a gyfrannodd tuag at gost y parti.

Bethel: Dafydd Guto, Anwen Williams, Y Gors Bach, Idris Morris, Treflyn Stores, Post, Ceir Cymru, C.P.D Bethel, R. L. Williams, Merched Y Wawr.

Llanrug: Wendy, Spar, Eisteddfod, Ysgol Gynradd, Clwb Pêl-Droed, Garej Hafod, Mr Gwyn Antur - Cerrig Beddi, Glyntwrog, Penbont, Elaine's, Tegfan, Londis, Wavell, Dave - Caffi Cefn Coed, Becws Bryngwyn, Post, Arvonnia.

Llanberis: Pete's Eat, Honey Farm, G. L. Jones, Mountain Aa, E. W. Pritchard, Côr Dyffryn Peris, Y Bistro, Joe Brown, Y Dolbadarn, Pet Shop, Prince Of Wales, Swigod a Sebon, Glyn Afon, Crib Goch, Castle Gifts, Dol Peris, Formag, Erw Fawr, Meic Peintar, Crystal

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

Knight, Hairlines, Creffttau Eryri, Fframiau, Becws Pen Bryn, British Legion, Post, Spar, First Hydro, Outside-V12, Saffron, Caernarfon; Menna Jones, North Wales Quad Generator, Bara Caws, A & G Car Body Specialists, AVW, Shell Gas, Furniture Wales, Savers, Tesco, Safeway, Seiont Nurseries,

Silver Star, Dodrefn Perkins, International Safety Components Ltd, A & R Motor Services, Barnett Pepper, Argos, R & J Jones Ltd, Nat West, Sain - Llandwrog, Yr Heddlu, Spar - Min-Y-Nant, Abbey National. **Waunfawr; Siop.** **Deiniolen; Post, Garej Beran.** **Penisarwaun; Cartref Henoed.** MANON WYN WILLIAMS



Siôn Corn a'i gymhorthydd wrthi'n brysur!!



Edward yn ei anterth!



Y genod yn mwynhau.



Alaen a Sioned yn croesawu rhai o'r disgyblion.

Apêl Tsunami

Fel y mae'r rhifyn hwn o'r Eco yn mynd i'r wasg, mae disgyblion Chweched Dosbarth yr ysgol yn codi arian i helpu'r rhai hynny ddioddefodd arswyd y Tsunami ar Ddydd San Steffan y llynedd. Hyd yma y cyfanswm a gasglwyd yw £1,400!!!!

Enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod yr Ysgol:



Iwan Williams o Eilian Ffugenw: Bins Tŷ: Eilian

BRR - BRR - BRR - BRR ...

Neidiodd Tomos Ifans allan o'i groen am yr ail waith y diwrnod hwnnw, cododd o'i gadair eistedd o flaen y tân a taranodd lawr y grisiau.

Roedd y teclyn newydd wedi cyrraedd rhyw wythnos yn ddiweddarach ac nid oedd Tomos Ifans, perchennog Siop y pentref wedi dod i arfer yn iawn gyda'r ddyfais newydd eto. Ei wraig, Meri Ifans oedd wedi mynnu cael y ffôn a dyna oedd testun siarad y pentref ers dyddiau bellach. Roedd y ffôn wedi cyrraedd mewn fan ddu a oedd wedi ei llywio lawr yr heol yn osgeiddig gan ddau ddyn mewn siwtiau ffasiynol. Roedd y fan ei hun wedi cynhyrchu 'comosiwn' ynghanol trigolion y pentref ond pan dynnwyd ei chynnwys allan o'r cefn, bu bron i rai o'r hen ferched busneslyd, a oedd wedi stwffio i'r tu blaen, lewygu â sioc.

'Nefi wen, y ffôn cyntaf yn cyrraedd pentref Cwm Codd,' bloeddiodd Marged Tomos, Cae Uchaf.

'Dod â'r pentref i mewn i'r ugeinfed ganrif,' gwacddodd Meri Ifans, yn falch o'r cynnwrf yr oedd ei anrheg hi wedi ei achosi.

Arhosai Tomos y tu mewn i'r siop yn gwylio'r ffars. Roedd wedi ildio i swnian ei wraig ac wedi ci brynu iddi. Nid oedd o yn rhy hoff o rhyw gynnwrf a thynnu sylw, yn cnwedig os mai ef a'i deulu oedd canolbwynt y sylw.

Roedd y siop wedi bod dipyn prysurach yr wythnosau cyntaf ar ôl derbyn y ffôn, pawb yn galw ac yn prynu rhywbeth bach

dibwys ac yna yn treulio tua hanner awr yn edrych ac yn siarad am y ffôn. Wrth gwrs roedd Meri wrth ei bodd ond roedd Tomos o farn wahanol.

'Ma'r holl bobol wedi mynd yn wirion, ma nhw fel gwenynod at bot mêl.'

'Fuodd y siop 'rioed brysurach,' dadlodd ei wraig. Meri enillodd y dydd eto ac roedd yn rhaid i'r hen Tomos ffoi i'r llofft i gael distawrwydd. Roedd y ffôn yn cychwyn creu bwlch rhwng Meri a Tomos, roedd wedi newid eu bywydau'n llwyr, roeddent wastad yn ffraeo neu'n dadlau a'r ffôn oedd yr achos bob tro.

O ddiwrnod i ddiwrnod aeth pethau'n waeth ac yn waeth, ni siaradai'r ddau gyda'i gilydd dim ond o reidrwydd.

Pan ganodd y ffôn y diwrnod ofnadwy hwnnw am y trydydd tro, gwyddai Meri'n iawn mai hyn oedd y diwedd. Roedd Tomos, y llosgfynydd, ar fin ffrwydro. Rhedodd i lawr y grisiau, roedd yn berwi tu-mewn a theimlai'r gwaed yn bryso i'w ben. Arhosodd Meri wrth y ffôn ar gownter y siop, teimlai'r tensiwn yn tyfu ac ofnai y gwaethaf. Roedd yn siŵr fod Tomos am ei tharo ond roedd canlyniadau'r caniad olaf yn llawer gwaeth.

'Allan!' roedd y llosgfynydd wedi ffrwydro.

'Pam?' llifodd y lafa poeth dros Meri.

'Gwyddost yn iawn pam,' poerodd y llosgfynydd.

'Plis, paid â 'nhaflu allan,' llosgodd Meri.

'O 'ngolwg i y munud yma!' tafodd y llosgfynydd ei daflad olaf. Gwthiodd Meri allan o'r siop ac i'r stryd.

Toedd ganddi unman i fynd, dim dillad, dim byd. Crwydrodd drwy'r pentref fel plentyn 'di colli ei fam. Penderfynodd fynd at ei chwaer, oedd yn byw tua ugain milltir i ffrwd, roedd hi'n dechrau tywyllu ac roedd yn pigo bwrw. Dechreuodd Meri deimlo'n anesmwyth.

Cerddodd a cherddodd nes bod ei thraed yn brifo. Erbyn i Meri fedru gweld y pentref cyfagos nesaf roedd wedi tywyllu'n llwyr. Roedd yn gallu gweld goleuadau'r canhwylau yn ffenestri'r tai, roeddent fel smotiau bach melyn i lawr yn y dyffryn.

Troediodd ar hyd y llethrau'n araf, baglodd dros ambell garreg a rhwygo'i ffrog. Penderfynodd y buasai'n well iddi chwilio am lety i aros ynddo am y noson a cherdded y deng milltir a oedd yn weddill y diwrnod canlynol. Ond yn anffodus mi gyrhaeddodd hi'r pentref, baglodd eto ar garreg fawr a disgynnodd yn ddiscremoni ar y llawr gan daro'i phen mewn carreg finiog. Gorweddodd yno yn llipa. Roedd yn anymwybodol.

Deffrodd Meri o drwmgwsg pell. Pwy oedd hi? Lle oedd hi? Beth oedd 'di digwydd? Roedd mewn gwely cynnes cyfforddus mewn 'stafell ddieithr.

'Sut ydach chi'n teimlo rwan, fy ngeneth i?' meddai rhyw lais pell o rywle.

'O... gwell diolch,' clywodd Meri ei hun yn dweud. Dechreuodd y llais eto,

'O mae'n dda gen i glywed. Dwi'n credu y bu i chi ddisgyn draw ar y llethrau acw liw nos neithiwr. Fi ydi Doctor Puw, dwi wedi bod yn cadw llygad arnach chi ers neithiwr. Dywedwch, 'mechan i, oes ganddoch chi unrhyw syniad ble yr ydych?'

Meddylodd Meri'n hir am y cwestiwn. Roedd yn rhaid iddi gyfaddef roedd y lle yn hollol ddieithr, ac yn waeth na hynny nid oedd hyd yn oed yn cofio ei henw, na pwy oedd hi.

'Nac oes, dim syniad,' atebodd yn ddistaw.

'Roeddwn wedi ofni,' meddai'r doctor yn wybodol.

Aeth allan o'r 'stafell gan gau'r drws yn ddistaw. Rhoddodd Meri ei phen yn ôl i lawr ar y goebnydd ac yn syth bin disgynnodd yn ôl i gwsg. Ond dim fel y trwmgwsg braf a oedd hi newydd ddeffro ohono ond i gwsg anesmwyth, yn llawn hunllefau.

Roedd yn rhedeg i lawr rhyw fynydd. Roedd yn gallu gweld y pentref islaw ond yn methu ei gyrraedd.

Deffrodd eto ymhen rhyw deirawr - roedd yn teimlo'n llawer gwell ond o hyd yn methu a deall lle yr oedd hi, na pwy oedd hi.

Roedd gŵr y plasdy wedi darganfod Meri ar ochr y mynydd y noson cynt ac wedi galw am ddoctor. Dywedodd y doctor ei fod yn ofni fod Meri wedi cael 'amnesia'. Roedd ei amcan yn gywir. Roedd wedi colli ei meddwl yn llwyr, yn cofio dim.

Bu'n rhaid i Meri aros yn y plasdy am fisocdd, gweithiodd i Meistr Jack a Meistres Lilian fel morwyn. Roedd y ddau yn garedig iawn ac yn trin Meri'n dda iawn i feddwl mai dieithryn di-feddwl oedd hi.

Dechreuodd Meri ymgartrefu yn y plasdy, ond roedd un peth yn ei phoeni. Roedd y teclyn a oedd yn y cyntedd yn ei phoeni ac yn ei hatgoffa o rywbeth. Bob tro y canai roedd atgofion o rywun neu rywbeth yn treiddio i'w meddwl, Mynnai'r peth hwn ei phoeni.

Wrth i'r misoedd fynd yn eu blaenau gwylltiodd Meri swyfwy wrth glywed y ffôn. Collodd ei thymor yn amlach. Roedd hyn yn dechrau dweud ar ei swydd yn y plasdy ac roedd y meistr yn sylwi ar hyn. Cafodd air gyda'r doctor a gofynnodd hwnnw os ydych chi ei gweld. Trefnwyd

apwyntiad a cafodd Meri fynd i weld y doctor y bore canlynol.

'Sut ydach chi'n cadw?' gofynnodd y doctor yn ei lais cyfeillgar, meddal.

'Wel, iawn diolch,' atebodd Meri, ond methu deall pam y dywedodd beth mor wirion. Nid oedd yn iawn o bell ffordd, roedd yn methu deall pam na chofiai ddim o'r gorffennol.

Gorffennodd yr apwyntiad gyda meddyliau dryslyd. Toedd Meri ddim 'di deall pwynt yr ymweliad o gwbl, ond roedd y doctor wedi dysgu rhywbeth newydd amdani. Credai fod ei chyflwr yn gwaethgu. Cysylltodd â Meistr Jack ac awgrymu y buasai'n well iddynt symud Meri i gartref Llan-Gwyn, cartref yn y pentref cyfagos a oedd yn edrych ar ôl pobl fel hi, pobl a oedd wedi colli eu meddyliau.

Yn y cyfamser, ym mhentref Cwm-Coed roedd Tomos Ifans yn mynd o'i go. Roedd yn difaru taflu ei wraig allan heb ddim rhybudd fel y gwnaeth o. Roedd trigolion y pentref yn ei gasáu. Ni fu'r siop erioed mor wag a thawel, roedd Tomos Ifans yn ddyn unig a thrist. Roedd wedi troi ei gefn ar ei wraig (heb reswm digonol, yn ôl Marged Thomas, Cae Uchaf) ac roedd pawb wedi troi eu cefnau arno fo. Ond erbyn y pedwerydd mis ers i Meri ddiflannu roedd gwylltineb y pentref yn lleihau a'r holi a'r consyrn yn cynyddu. Roedd testun siarad y pentref wedi newid o fod yn 'y ffôn' i 'Tomos Ifans, y gŵr gwaethaf' i 'Ble mae Meri?', 'Sut mae hi?' Ydach chi wedi clywed ganddi?

Aeth misoedd heibio a pharhaodd Meri i weithio yn y plasdy ond ar hyd yr amser gwaethygodd ei chyflwr. Roedd y ffôn yn ei chynddeiriogi yn waeth nag erioed, ac roedd yr atgofion a oedd yn trio dod i'w meddwl yn ei gyrru'n wirion.

Roedd y ffôn yn symbol o rywbeth, neu rywun, neu rywle. Roedd enw rhywun ar flaen ei thafod, Tom efallai neu Tomi. Hefyd roedd lluniau o siop gyda ffôn newydd ar y cownter yn llachio i'w meddwl. Roedd y ffôn yn trio ei hatgoffa o'r ddynes oedd hi erystalwm.

Penderfynwyd, ar ddechrau'r chweched mis yn y plasdy, y buasai'n well symud Meri i gartref Llan Gwyn. Roedd Meistr Jack wedi ceisio osgoi y syniad o symud ei forwyn i'r cartref dychrynlyd ond nawr roedd hi'n fater o raid. Roedd ei gwaith yn arafu ac roedd hi fel person yn mynd yn anoddach i'w thrin, weithiau roedd yn colli ei thymor ac ofnai Meistr Jack iddi droi'r beryglus. Torrodd Jack y newyddion iddi un bore, 'Dwi'n ofni y bydd yn rhaid i chi gael eich symud i gartref Llan Gwyn,' meddai yn sensitif.

'O, wela i!' atebodd Meri'n fain.

'Wel, rydych yn siŵr o fod wedi sylweddoli eich hun, rydych yn gwylltio ac yn y blaen yn aml. Mae'r wraig a finnau yn wirioneddol teimlo'n ddrwg ond dyna'r unig opsiwn.'

Derbyniodd Meri'r sefyllfa'n dda iawn a bu'n rhaid iddi symud i'r cartref. Pan oedd Jack yn symud ychydig bethau Meri disgynnodd dyddiadur allan o'i bag. Ynddo darganfyddodd rif ffôn, ffoniodd y rhif a darganfod mai Tomos Ifans oedd perchennog y ffôn. Esboniodd Jack y sefyllfa, wedyn disgynnodd y geiniog. Tomos Ifans oedd gŵr Meri. Teimlodd Tomos ryddhad. Roedd wedi darganfod ei wraig, drwy gyfrwng y ffôn.

Cafodd y ddau weld ei gilydd eto, dyna oedd eu diwrnod hapusaf. Er fod Meri'n gorfod mynd i'r cartref roedd y ddau wedi cwrdd unwaith eto. Roedd yr atgofion a oedd yn dod i'w meddwl wrth weld a chlywed y ffôn yn y plasdy'n glir rwan, roedd yn cofio'r siop a'r ffôn, a Tomos.

Er fod y ffôn wedi rhwygo bywyd Meri a phriodas Tomos a hi, roedd hefyd wedi dod a'r ddau yn ôl at ei gilydd.

O hyn allan, gwerthfawrogodd Tomos y ffôn yn fwy nac erioed.

'Diolch byth am y ffôn!'



ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

caban

I fwyta ac yfed
mewn awyrgylch
braf, deuluol,
galwch acw!

YR HEN YSGOL,
BRYNREFAIL
FFÔN: 01286 685462

Rhan o Brosiect
Dylunio a Menter Eryri



ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286 676176 Ffacs: 01286 671126 E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill



H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch
cadw'n gynnes ac yn glyd!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol GORAU
i'ch **CAR**. Cystal a
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru.
o Audi i Zastava



website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Gwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed i'ch
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD
CANU CAROLAU. Trefnodd yr
aelodau noson o ganu carolau o
gwmpas yr ardal nos lau, Rhagfyr
16eg. Ymunodd ffrindiau a phlant
ac mae ein diolch iddynt am eu
cefnogaeth ac am ewyllys da y
pentrefwyr. Casglwyd y swm o
£122.34. Roedd y casgliad y tro
hwn yn mynd at apêl Cymorth
Cristnogol "Plentyn Bethlehem".
DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a
Mrs Laura Williams ddiolch am
bob caredigrwydd ar achlysur ei
ymddeoliad.

OEDFA NADOLIG

Fore Sul, Rhagfyr 19eg dathlwyd
Gŵyl y Geni gyda gwasanaeth
wedi ei drefnu gan lywydd y mis,
Jennie Angharad Roberts.
Cymerwyd rhan mewn
darlleniadau ysgrythurol a chyfoes
ynghyd â gweddïau gan Richard
Wyn Evans, John McBryde,
Norman a Lowri Williams, Gwyn
Hefin ac Ifanwy Jones, Dafydd
G.Ellis ac Emyr Williams. Cafwyd

unawd gan Robert John Williams.
Gwerthfawrogwyd yn fawr
gyfraniad Rhian ac Anna George
mewn datganiadau llafar ac
offerynnol. Diolchwyd ar y terfyn
gan y llywydd i Dilys Morris a Mair
Wyn Davies am addurno'r Festri
ac i Lowri Prys Williams am
baratoi ac argraffu'r rhaglenni.
Cafwyd cyfle i gymdeithasu ar y
diwedd uwch lluniaeth tymhorol
wedi ei baratoi gan Eirianwen
Evans, Elen George, Ifanwy
Jones a Lowri Prys Williams.
Anfonwyd cofion at yr oll o'r
aelodau gan ddymuno i bawb
fendithion yr ŵyl.

OEDFEUON CHWEFROR

- 6 Parch Dafydd Hughes,
Caernarfon am 5.30
- 13 Parch Gwenda Richards,
Caernarfon am 5.30
- 20 Mr Richard Lloyd Jones,
Bethel am 5.30
- 27 Mr Islwyn Hughes, Llangoed
am 10.00

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC
YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A
MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y
GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, fffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

am help:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Sychlanhau • Altro

Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? Os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

DRAENOG

Stori Gwael

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig fe drefnodd Clwb Pêl-droed Llanberis ras hwyaid plastig ar un o afonydd yr ardal. Gofynnodd un o'r trefnyddion i wr o'r pentra a fyddai'n fodlon prynu 'chwadan'. Ei ateb oedd, 'Disgwyl i mi gael ffonio adra rhag ofn fod mam wedi prynu twrci!' Gall Draneog sicrhau trigolion Llanberis na fydd T. Roberts yn agor siop fwtsiar yn y pentra yn ystod y flwyddyn hon!

Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

**Blodau
Racca**

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hafyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHÔDD O'R GALŶN VW BLODAU

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Y FYNWENT. Derbyniwyd rhodd er cof am Mrs Ceridwen Owen, Ferndale, 5 Ffordd Glanffynnon. PWYLLGOR LLANRUG – EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Bydd aelodau o'r Pwyllgor yn mynd o dŷ i dŷ yn yr ardal yn casglu rhoddion at yr Eisteddfod. Fe fydd hyn yn rhoi cyfle i bawb sydd yn dymuno cyfrannu, yn enwedig os nad oes modd iddynt ymuno mewn gweithgareddau. Byddwn yn ddiolchgar iawn o'ch cefnogaeth.

Mae'r CD wedi gwerthu'n dda, os am gopi, mae gan y swyddogion rai ac yn y siopau lleol. Yn anffodus, mae'r Noson 'Burns' wedi ei chanslo.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mrs Amy Smith, Rhes Rhyddallt a Mrs Bet Jones, Lyndale, y ddwy wedi dathlu eu pen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar iawn.

PROFEDIGAETHAU. Bu farw Evan (Ianto) Roberts, 7 Afon Rhos, ar 13 Ionawr, yn dilyn misoedd lawer o driniaethau yn ysbytai Lerpwl a Gwynedd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Margaret ag Ellen, ei frodyr a'i chwiorydd, ei fam yng nghyfraith a'r teulu oll.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth ddisymwth Mark, mab annwyl Gordon ac Ann Davies, Sycharth, Bryn Moelyn, yn 26 oed, a brawd cariadus Ellen ac Allan.

Daeth y newyddion am farwolaeth Owena Parry, Tan y Coed, yn fraw i bawb. Roedd wedi bod yn sâl am gyfnod byr yn unig. Bydd colled enfawr i'w gŵr, John, y plant, Bethan, Wyn, Anwen, Aled a Rheon a nain gariadus i Efa. Roedd Owena yn berson unigryw, yn diddori yn nhim pêl-droed Llanrug, y tîm dartiau ac yn gefnogol a pharod ei chymwynas i weithgareddau'r pentref bob amser. Bu'n weithgar am flynyddoedd ar bwyllgor Carnifal y pentref ac yna yn trefnu Cinio Nadolig i'r pensïynwyr.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teuluoedd yma yn eu profedigaethau annisgwyl.

CAPEL Y RHOS. Yn y gwasanaeth for Sul, 5 Rhagfyr, dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Dafydd Hughes, fe dderbyniwyd chwech o bobl ifanc yn aelodau yng Nghapel y Rhos. Gweinyddwyd y Cymun a rhoddwyd croeso'r eglwys i'r chwech, sef Tracey Elizabeth Evans, Eifion Griffiths, Jonathan Daniel Jones, Tomos Wyn Jones, Gareth Alun Owen a Gwenllian Angharad Williams.

Am naw o'r gloch ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth 'Anrheg Nadolig' yn rhoi cyfle i'r plant ddod i ddangos a diolch am eu anrhegion Nadolig. A chafwyd gwasanaeth arbennig fore Sul, 16 Ionawr, i gofio am y dioddefwyr o ganlyniad i'r ddaeargryn yn Asia, gyda'r caogliad yn mynd tuag at apêl

trychineb y tsunami.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 19 Ionawr daeth Gareth Jones, cyn-brifathro Ysgol John Bright, Llandudno a Llefarydd y Blaid ar Addysg yn y Cynulliad o 1999 hyd 2003, atom i siarad am 'Blaid Cymru Heddiw'.

Cinio Gŵyl Ddewi sydd nesaf ar y rhaglen, gyda'r Aelod Seneddol, Hywel Williams, yn ŵr gwadd, yn y Bistro Llanberis, nos Wener, 25 Chwefror.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd gwasanaeth o Lithoedd a Charolau yn yr ysgol gymuned nos Lun, 6 Rhagfyr. Darllenwyd y lithoedd gan yr aelodau. Chwaraeodd y Parch Deiniol Morgan y piano ac hefyd cymerodd ran yn y gwasanaeth. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd paned a mins pei. Darllenwyd e-bost wedi ei dderbyn oddi wrth Mrs Margaret Latham o'r America. Doedd dim arall i'w drafod. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Joyce Ransom a Margaret Latham ac fe'u henillwyd gan Mrs Hilda Orritt a Mrs Gwen Owen. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 14 Rhagfyr, aeth aelodau cangen Llanrug i'r Bistro, Llanberis i ddathlu'r Nadolig. Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan staff y Bistro, ac aeth yr aelodau i ystafell fwyta a oedd wedi ei haddurno'n chwaethus er mwyn cyfleu awyrgylch dymhorol. Mwynhawyd pryd ardderchog o fwyd ac roedd y sgwrsio a'r hwyl yn afieithus.

Estynnwyd gair o groeso gan Eryl, y Llywydd. Diolchodd i Olwen am drefnu noson arbennig iawn a diolchodd i berchnogion y Bistro, Danny a Nerys, ynghyd â'u staff am eu croeso a'u cymorth parod. Cydymdeimlwyd ag Ann Lloyd ar farwolaeth ei mam yng nghyfraith. Llongyfarchwyd Gethin, mab Margaret, ar ei briodas â Jane ym mis Tachwedd.

Cynhelir distawrwydd nodedig gan yr Is-bwyllgor Anabl yn Festri Capel Ebenezer ar 21 Ionawr a bydd yr elw yn mynd at CLIC. Cynhelir Noson Santes Dwynwen ym Meithrinfa Treborth ar 28 Ionawr a chynhelir cwrw Crefft y Gogledd ym Mhlas y Dre, y Bala ar 29 Ionawr.

I offren dymunodd Eryl Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Enillwyr y gwobrau raffl oedd Avril, Helen a Bethanne.

Erbyn y daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg bydd ein cyfarfod Ionawr wedi bod pryd y disgwylir J. Elwyn Hughes atom gyda'i ddarlith – Bro a Bywyd Caradog Prichard.

AILGYLCHU. Rwy'n siŵr eich bod i gyd erbyn hyn wedi gweld hysbyseb ar y teledu yn ein gymell i ailgylchu gwastraff, ac wedi sylweddoli mai Lyndsey Thomas o Bl.6 Vsgol Llanrug ydi'r

eneth sydd yn ein darbwyllo i ailgylchu.

DIOLCH. Dymuna Mrs Amy Smith, Llechwedd, Tai Rhythallt, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am y caredigrwydd tuag ati yn ystod mis Rhagfyr yn dilyn dathlu ei phen-blwydd. Diolch hefyd i aelodau Capel y Rhos am gyflwyniad arbennig.

YR YSGOL GYNRADD. Yn ystod wythnos olaf y tymor diwethaf aeth disgyblion yr Adran Iau, gyda'u hathrawon, i ganu carolau y tu allan i archfarchnad Morrisons yng Nghaernarfon. Trwy garedigrwydd y siopwyr anfonwyd tri chan punt i Apêl Tŷ Gobaith. Diolch yn fawr i bawb.

Cyn gwyliau'r Nadolig daeth y consuriwr, Howard Hughes, i'r ysgol i ddangos tric neu ddau i'r plant. Er iddyn nhw wyllo pob symudiad yn ofalus, fe'u gadawyd mewn penbleth fawr! Sut ar wyneb y ddaear y gwnaeth

o'r tric hud yna?

Llongyfarchiadau. Dymunwn bob hapusrwydd i Miss Llinos Williams ar ei dyweddïad ag Einion Evans o bentref Trefor. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

Yr Urdd. Am yr ail flwyddyn yn olynol daeth tîm pêl-droed pump-bob-ochr genethod yr ysgol yn fuddugol yn Nhwrnament Pêl-droed Genethod Rhanbarth Eryri yr Urdd. Llongyfarchiadau ichi genod a phob hwyl yn y cystadlaethau cenedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mai.

Bydd Eisteddfodau Cylch yr Urdd yn cael eu cynnal yn ystod mis Chwefror. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cystadlu.

Profedigaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Wyn Griffith a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Mr Griffith, y Parchedig Brian Griffith. DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymddeoliad.

UN FUNUD FACH

Y TSWNAMI

Gwelwyd pobl ar eu gorau ers i'r Tswnami mawr daro gwledydd De-ddwyrain Asia drannoeth y Nadolig. Mae dewrder pobl yng nghanol y fath ddioddefaint yn gwbl ryfeddol, ac ymroddiad a phenderfyniad y gweithwyr dyngarol i helpu'r rhai a gollodd gymaint wedi ennyn parch ac edmygedd y byd. A chwbl arbennig hefyd fu haelioni pobl a roddodd eu harian i'r elusennau a fydd yn cynorthwyo'r dioddefwyr: mewn mis cyfrannodd pobl Prydain fwy na £200 miliwn.

Codwyd miliwn a chwarter o bunnoedd y Sadwrn diwethaf trwy'r cyngerdd a gynhaliwyd yn Stadiwm y Mileniwm, a rhaid llongyfarch y trefnwyr am lwyddiant y fenter, a diolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd. Mae miliwn a chwarter yn arian sylweddol, a bydd pob ceiniog ohono yn werthfawr. Mae miliwn a chwarter hefyd yn cyfateb i £5 y pen am bob bywyd a gollwyd yn y drychineb, sy'n dangos mor ddychrynlyd o fawr oedd

y dinistr a achoswyd gan y Tswnami. Ydy, mae'n anodd amgyffred maint y drychineb hon, ond diolch am bob ymdrech a wnaed i godi arian ac i drefnu cymorth.

Does ond gobeithio y bydd llywodraethau'r byd yn ymateb i'r drychineb trwy fynnu cydweithio i helpu'r rhai sydd wedi dioddef a'r rhai sydd mewn peryg o ddioddef eto. Mae'r elusen Tearfund yn dadlau bod y trychinebau naturiol hyn ar gynnydd ac yn pryderu nad yw'r llywodraethau'n sylweddoli hynny. Mae'n dadlau hefyd nad yw'r llywodraethau yn gweld yr angen i wneud popeth posibl i leihau effaith y fath drychinebau trwy alluogi gwledydd tlawd y byd i'w hamddiffyn eu hunain.

Yn ôl Tearfund byddai systemau rhybudd cynnar o lifogydd, a llochesi llifogydd, a storfeydd bwyd a chymorth cyntaf ar gyfer argyfwng, yn gymorth mawr i arbed miloedd o fywydau pan dery trychinebau naturiol. Wedi'r cyfrannu eithriadol o hael mae'n bosibl mai'r peth nesaf y dylem fel unigolion ei wneud yw pwyso ar y Llywodraeth i gydweithio â llywodraethau eraill y byd i sefydlu ac i ariannu'r fath baratoadau a fydd yn arbed bywydau yn nhrychinebau'r dyfodol.

Mae pob math o bethau'n cymell pobl i gyfrannu ac i ddwyn perswâd ar lywodraethau i weithredu dros y dioddefus a'r tlawd. I'r Cristion, y cymhelliad yw'r awydd i wasanaethu Crist trwy wasanaethu eraill, gan gofio geiriau'r Iesu: 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnacthoch.'

JOHN PRITCHARD

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ

(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR

(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD

(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad

yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYMDEITHAS LENYDDOL. Braf oedd gweld nifer dda o aelodau wedi troi allan i gyfarfod cyntaf y flwyddyn yn Festri Bethel (A). Dafydd Iwan oedd y gŵr gwadd, ac ar ôl y croeso arferol gan Jenkin Griffiths, cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo yn delio â'r Gair a'r Gân. Cyflwynodd nifer o ganeuon, gan roi cefndir eu cyfansoddi. Diolchwyd iddo gan Richard Lloyd Jones. Yng nghyfarfod mis Chwefror, Geraint Percy Jones, Bangor fydd y siaradwr.

DIOLCH. Dymuna Dr Raymond a Mrs Laura Williams ddiolch am bob caredigrwydd ar achlysur ei ymdeoliad.

CAPEL Y CYSEGR. Cafwyd nifer o weithgareddau yn arwain i fyny at y Nadolig. Y Sul cynt cymerwyd rhan gan tua hanner cant o blant yr Ysgol Sul mewn cyflwyniad arbennig o Stori'r Geni. Cychwynnwyd y cyflwyniad gyda'r holl blant yn canu 'Dyma Stori' ac yna bu i bob dosbarth yn eu tro gyflwyno rhannau o'r stori, mewn darlleniadau o'r Beibl, barddoniaeth a chân. Gorymdeithiodd y plant lleiaf o amgylch y Capel yn protreadu prif gymeriadau'r stori, sef Joseff, Mair, Angylion, Bugeiliaid a Doethion. Roedd cyfle hefyd i'r gynulleidfa ymuno mewn nifer o garolau yn ystod y cyflwyniad, a diweddwyd gyda'r plant yn llenwi'r Sêl Fawr a chanu 'Celdwad Byd'.

Yn y prynhawn mwynhawyd te parti blasus wedi ei baratoi gan yr Athrawon i holl blant yr Ysgol Sul, a braf oedd cael ymweliad gan Siôn Corn, a phob plentyn yn cael anrheg ganddo.

Roedd y Capel yn gyfforddus iawn i Wasanaeth Cymun y Nadolig i'r holl bentref, o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Dafydd Hughes, gydag aelodau Capeli'r ardal yn cymryd rhan. Yn dilyn gair o groeso i'r gwasanaeth gan y Gweinidog, Carys Williams, yn cynrychioli Capel Saron lediodd y garol gyntaf, ac yna cafwyd darlleniad o ddwy gerdd, sef 'Nadolig, Pwy a Wyr?' gan Ryan Davies a 'Gwaith y Nadolig' gan Mererid Hopwood, y naill gan Anita Owen a'r llall gan Ffion Owen, y ddwy o Gapel y Cysegr. Lediodd Dafydd Emrys garol arall a chafwyd gair o weddi gan Goronwy Jones, y ddau o Gapel y Cysegr. Ar ran Capel Bethel darllenodd Iwan Williams adnodau o Efengyl Mathew, a lediodd Euron Hughes o Gapel Seion y garol olaf. Fel arweiniad at fwrdd y Cymun chwaraeodd Glenys Griffiths, yr organydd, Gorâl allan o Oratorio'r Nadolig gan J.S. Bach, ac yna rhannwyd yr elfennau gan Geraint Elis a Glyn Roberts.

Eleni penderfynwyd anfon casgliad Gwasanaeth y Plant, sef cyfanswm o £115, tuag at Apêl Cymorth Cristnogol 'Plentyn Bethlehem'.

CLWB BRO BETHEL. Cyfarfu'r aelodau i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn Festri Bethel gyda Goronwy Jones yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd Gwynndaf Williams, a chafwyd ganddo sgwrs llawn gwybodaeth ar Gymdeithas Hanes Teulu oedd Gwynedd. Roedd wedi dod a nifer o ddogfennau sydd yn cael eu cyhoeddi gan y Gymdeithas a chafwyd cyfle i bori yn eu mysg

dros baned. Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr, a hynny ar brynawn Mawrth, 1 Chwefror, yng nghwmni Collwyn Williams, Bethel. MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn, nos Fercher, 12 Ionawr yn Ysgol Gynradd Bethel. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Rhian Hughes.

Llongyfarchwyd Lois, merch Margaret Druce ar ei dyweddïad yn ddiweddar. Atgoffwyd yr aelodau am raffl fawr Rhanbarth Arfon ar gyfer codi arian i Eisteddfod Eryri a'r Cylch. Dylid mynd â'r arian cyn gynted ag y bo modd i Mair Read. Hysbwyd yr aelodau o fwiad yr ysgol gynradd i gynnal brecwast fore Gwener, 14 Ionawr, ac y bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at y drychineb yn Asia. Hysbwyd yr aelodau hefyd fod ymryson Talwrn y Beirdd yn yr ysgol gynradd yn Llanrug nos Fawrth, 25 Ionawr, am 7.15. Bydd tîm Llanrug yn erbyn tîm Caernarfon ac mae mynediad am ddim.

Y gŵr gwadd oedd Geraint Lovgreen a diddanodd yr aelodau drwy gyfrwng caneuon a cherddi yr oedd wedi eu cyfansoddi. Cafwyd noson hynod o ddifyr a hwyliog yn ei gwmni a diolchwyd iddo ar ran y gangen gan Elizabeth Evans. Enillydd y raffl oedd Siân Davies. NEUADD GOFFA BETHEL.

Enillwyr Clwb 200 Hydref 2004 oedd: £50: (21) Janet Owen, 12 Stad Eryri; £25: (142) Eryl Roberts, Bryn Rhedyn; £10: (109) Freda Jones, 3 Rhoslan.

Enillwyr Tachwedd oedd £50: (83) Collwyn Williams, 4 Tan y Cae; £25: (43) M. Heritage, 6 Bro Eglwys; £10: (37) Helen Morris, 29 Bro Eglwys. DIOLCH Dymuna Colin a Sandra, Pennant, Tan y Ffordd ddiolch i bawb am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur geni mab, Samuel Lloyd, ar 5 Tachwedd 2004.

Dymuna Mark a Siân Emlyn Roberts ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch Erin Emlyn Roberts.

NEWYDDION O'R YSGOL. Roedd Neuadd yr ysgol yn fwrwm o blant a rhieni am 8.15 fore Gwener, 14 Ionawr, pan agorodd Bistro Bethel i ffreiwast.

Daeth holl staff yr ysgol a'r gegin i mewn erbyn 8.00 i baratoi brecwast amrywiol o sudd oren, bacwn, selsig, tōst, jam, marmalêd, a dewis da o rawnfwyd. Bu'r Bistro'n agored tan 10.00 o'r gloch gyda nifer dda o'r pentrefwyr a phlant hŷn Ysgol Brynrefail yn manteisio ar gael brecwast allan.

Prynwyd y bywd gan staff yr ysgol a diolch i Mr Wavell Roberts, Llanrug am ei gyfraniad o'r bacwn a'r selsig i gyd ar gyfer y brecwast. Roedd yr arian a gesglwyd i gyd yn elw tuag at Apêl Tsunami. Yn ystod y bore hefyd daeth plant a newid mân i'r ysgol i orchuddio map o'r byd.

Erbyn hyn mae'r casgliad dros £1000 tuag at yr Apêl.

Diolch yn fawr i bawb am fod mor hael yn cefnogi'r Apêl deilwng yma. DIOLCH. Dymuna Mrs Siân Jones ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r cydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn ei phroffedigaeth ddiweddar o golli ei mam.

CHWILOTA

Tir Llanrug a

Bywoliaeth Llanberis



Yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco' soniais fel y defnyddiodd y Parch Evan Owen, Rheithor Llanberis, gronfa ariannol y 'Queen Anne's Bounty' i brynu tiroedd ym mhlwyf Llanrug er mwyn helpu i gynnal bywoliaeth Llanberis. Nid tiroedd yn unig a brynwyd gan y Parch Evan Owen, oherwydd mewn dalen o lawysgrif ar gadw yn yr Archifdy yng Nghaernarfon, mae cadarnhad o'r ffaith iddo hefyd ddefnyddio arian y 'Queen Anne's Bounty' i brynu rheithordy i Lanberis – a hynny yn Llanrug!

Bu'r Parch Evan Owen yn Rheithor Llanberis am 63 o flynyddoedd, a bu farw yn Nolgellau, ei dref enedigol, yn 96 oed yn y flwyddyn 1789. Roedd wedi bod yn ddall am y blynyddoedd olaf o'i oes. Mae'n bosibl mai yn llawysgrif y Parch Peter Bailey Williams y mae'r ddalen sy'n nodi i'r Parch Evan Owen 'completed the purchase of Ty yn y Coed in this parish for the Rectory of Llanberis with £200 Queen Anne's Bounty Money, He resided several years at Ty yn y Coed.' Mae Ty'n y Coed, wrth gwrs, wedi ei leoli yn agos at eglwys y plwyf yn Llanrug, ac yn amlwg, roedd rhai o'r caeau o amgylch y tŷ wedi eu prynu i'r un pwrpas.

Dilynwyd y Parch Evan Owen yn rheithor Llanberis gan y Parch David Ellis, sy'n fwy adnabyddus fel Dafydd Ellis, Person Cricieth. Roedd yn gasglwr llawysgrifau. Y Parch John Ellis oedd y rheithor nesaf, ac yr oedd yn dal bywoliaeth y ddau blwyf. Erbyn i'r Parch Peter Bailey Williams ddod yn rheithor ar y ddau blwyf, roedd y rheithordy mewn angen atgyweirio. Unwaith yn rhagor, gwnaethpwyd cais i Lywodraethwyr y 'Queen Anne's Bounty' am gymorth tuag at y gost o adnewyddu, neu'n hytrach ail-adeiladu rheithordy Ty'n y Coed. Derbyniwyd £200. Yr amcangyfrif am y gwaith oedd £193-18-0, a rhywun o'r enw John Jones oedd yn gyfrifol am y gwaith. Dyddiad yr amcangyfrif yw 15fed o Fedi 1803. Mae'n ddiddorol gweld y prisiau am y gwahanol

ddeunyddiau oedd eu hangen y pryd hynny i adeiladu tŷ. Mae'r manylion ar gael fel a ganlyn:

Coed ar gyfer y to, lloriau, chwech o ffenestri a saith drws	£45
Gwaith saer maen	£25
Plastrwr a thowr	£30
Brics	£7
Llechi	£8
Calch	£10
Certio'r llechi, cerrig a chalch	£6
Bil am hoelion, cloau a sgrîws	£6
Bil am 'hinges'	£3
Torri cerrig ar gyfer simneiau a'r ffenestri	£4
Gwydrwr	£6-8-0
Tynnu'r hen dŷ i lawr a thyllu allan y selar	£7
Palmantu'r 'passage' a'r ddwy selar	£1-10-0
Llifio'r holl waith coed	£5
Gwaith saer coed	£30

Hawlio tir ychwanegol

O fewn tair blynedd (1806) roedd Deddf Cau Tiroedd Comin Llanrug a Llanbeblig yn cael ei chyflwyno i'r senedd. Yr oedd gan bob tîrfeiddiannwr yr hawl i wneud cais am gyfran o'r comin, ac yr oedd y broses o fesur y tir, penderfynu ar hawliau gwahanol unigolion a gwarchod hawl y plwyfolion i rhyw gymaint o fawnogydd a thiroedd cyffredin yn cymryd cryn amser. Aeth bron i bymtheng mlynedd heibio cyn cadarnhau cyfran pawb a thalu'r holl gostau.

Oherwydd fod rheithor Llanberis wedi prynu tir ar gyfer cynnal bywoliaeth y plwyf, fe'i cyfrifid yn ôl y ddeddf yn dirfeddiannwr, ac felly â hawl i gyfran o dir comin Llanrug. Erbyn hynny, wrth gwrs, roedd y ddau blwyf dan reolaeth un rheithor. Dyddiad y dyfarniad oedd 23ain o Fai 1820, ac ychwanegwyd tiroedd yn ardal Pwll Moelyn tuag at eiddo rheithoriaeth Llanberis (gweler map). Roedd y tir hwn yn cynnwys y cae anferth sy'n cael ei alw yn Parc Beili, neu a rhoi iddo ei enw cywir, Parc Bailey (ar ôl rheithor Llanrug ar amser y cau tiroedd comin, y Parch Peter Bailey Williams. Oherwydd i drigolion Llanrug ar y pryd roedd yn ymddangos mai ei eiddo ef oedd y 'parc'.) Tiroedd eraill yn y cyffiniau a hawliwyd yr un pryd oedd safle hen ysgol Glanmoelyn a'r iard lo tu cefn iddi, un neu ddau o gaeau rhwng Groeslon Glanmoelyn a ffermdy Pen y Greuor, a chae arall rhwng y Tai Hermon presennol a Thwll y Clawdd ar y briffordd.

O ganlyniad i'r Deddfau Cau roedd gan reithoriaeth Llanberis gryn dipyn o dir ym

Cefnogwch ein Hysbysebwy

mhlwyf Llanrug, a'r rhent neu'r dreth, o'i osod i wahanol denantiaid, yn cael ei ddefnyddio tuag at gynnal y fywoliaeth - a oedd erbyn hyn yn cynnwys Llanberis a Llanrug - ond yn parhau yn gyfreithiol, yn enw Llanberis yn unig.

Ond o 1839 ymlaen, yn dilyn Deddf Adeiladau Eglwysig, rhoddwyd hawl i reithor unrhyw blwyf i werthu tiroedd eglwysig a brynwyd gydag arian y 'Queen Anne's Bounty'. Roedd angen caniatâd yr Esgob a chytundeb y Llywodraethwyr cyn cael parhau â'r gwerthiant. Roedd yr arian o'r gwerthiant yn cael ei drosglwyddo i Lywodraethwyr y 'Bounty' oedd yn ei fuddsoddi er lles y fywoliaeth.

Gwerthu tir y 'Bounty'

Ni fanteisiodd Rheithor Llanberis ar yr hawl hwn hyd 1898, a daeth tiroedd y 'Bounty' yn Llanrug ar werth. Y Parch David Jones fu'n gyfrifol am wneud hynny, ac yr oedd eisoes wedi bod yn rheithor yno ers 30ain o Ebrill 1886. Roedd dros 71 acer o dir yn cael eu cynnig fel rhan o'r gwerthiant.

Mae'r tir yn cael ei enwi fel 'Lleiniau Farm', ac enwir rhai caeau megis Cae o flaen drws, Cae cefn gadlas a Cae'r Eglwys fel rhan o'r fferm, ond gyda dau gae arall hefyd, sef Cae pengreuor isa a Cae pengreuor ucha.

Gwerthwyd y cyfan am £2100 i John Hugh Roberts, Frondeg, Llanrug (chwarelwr yn ôl y cytundeb). Mae'n ymddangos mai gweithredu yr oedd ar ran Trevor Charles Hughes, Glasgoed, Llanddeiniolen. Mae'r pryniant gwreiddiol wedi ei ddyddio 25ain o Dachwedd 1898, a'r trosglwyddiad o Reithoriaeth Llanberis i John Hugh Roberts. Ond erbyn 7fed o Ragfyr 1898 (gwta pythefnos wedi'r pryniant gwreiddiol) mae'r tiroedd yn cael eu trosglwyddo i Trevor Charles Hughes.

Yn Ionawr 1920 gwerthodd Trevor Charles Hughes yr eiddo i Gyngor Sir Gaernarfon am £3,235 mewn pedwar daliad gwahanol, sef Parc Bailey, Fron Hebron ac ychydig dir (sef hen efail Llanrug), fferm y Lleiniau (heb gynnwys dau gae pengreuor) a Tan Llan ym Mhontrug (rhan o'r hen diroedd gwreiddiol).

Dyna sut y gallai Cyngor Sir Gaernarfon ddefnyddio Parc Bailey fel cae chwarae dros dro i Ysgol Brynrefail pan agorwyd hi gyntaf, a cyn i'r caeau chwarae presennol gael eu tirlunio.

Ond nid dyna ddiwedd y stori! Mae'n ymddangos fod peth cymhlethdod ynglŷn â'r tiroedd yn ardal Pontrug, gydag unigolion eraill yn rhan o'r cyfnewid tir. Yn anffodus, rhaid

twrio trwy nifer helaeth o ddogfennau cyfreithiol ynglŷn â phryniant, rhentu a throsglwyddo tir, yn ogystal ag ewyllysiau, i ddarganfod yr holl hanes. Pan fydd amser yn caniatáu! Ond yn sicr, ni fydd dilyniant i'r hanes hwn am rai misocdd o leiaf.

Gŵr Frances Williams

Yn ystod rhifynnau diwethaf y llynedd cafwyd swm go helaeth o wybodaeth am Frances Williams, y ferch o'r Waunfawr a ymfudodd i'r America a dod yn gerddor adnabyddus. Cafwyd hefyd wybodaeth am ei theulu yn y fro. Gwnaethpwyd apêl am wybodaeth ynglŷn â'i gŵr, Eric Davies, a ddeuai o Gaernarfon, ac yn ystod y mis diwethaf daeth galwad ffôn gan gyfnither iddo o Gricieth. Rwy'n ddiolchgar i Mrs Mair W. Jones am y manylion canlynol.

Un o Gaernarfon oedd Hugh Davies, tad Eric, ond priododd â merch o Frynrefail, sef Ellen, (neu Nel) Williams. Roedd chwaer i Nel wedi priodi Jack Davies, brawd Hugh, a chapten llong. Roedd Ellen yn un o chwech o blant wedi eu magu yn Cyprus House, Brynrefail. Glanffrwd yw enw'r tŷ bellach, ond byddai'n ddiddorol cael gwybod pam y rhoddwyd yr enw Cyprus House arno'n wreiddiol.

Roedd gan Eric Davies dair chwaer, ac ymfudodd y teulu cyfan o Gaernarfon i'r America tua 1923 pan oedd Eric yn ddwy ar bymtheg oed. Ond nid hwy oedd yr unig aelodau o deulu Brynrefail i ymfudo i'r America. Roedd Jack Davies, y capten llong a'i wraig, chwaer Ellen, yn teithio ar hyd arfordir America, ac yno y buont hwythau fyw hefyd. Yn ychwanegol, priododd brawd i Ellen â Gwyneth Harry, athrawes yn Ysgol Brynrefail o 1921 hyd 1930. America oedd eu cartref hwythau hefyd yn ddiweddarach. Eu mab, John Harry, yw'r unig un o'r teulu sy'n parhau i fyw yn America bellach.

Arhosodd gweddill y teulu yng Nghymru. Roedd brawd i Ellen yn byw yn Llanystumdwy, ac yno y magwyd Mair Wyn Jones a roes yr holl wybodaeth am y teulu. Aeth brawd arall i Flaenau Ffestiniog i weithio'n chwarel Llechwedd, ac y mae rhai aelodau o'r teulu'n parhau yno. Chwaer arall i Ellen oedd Dilys, a briododd â Caradog Evans, a ddaeth yn brifathro Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Gadawsant gronfa ariannol tuag at scfydlu ysgoloriaeth i

ddisgyblion Ysgol Brynrefail, a gadawsant hefyd swm o arian er budd Capel Brynrefail.

Cafwyd hefyd wybodaeth ychwanegol am Frances Williams, sef mai hi oedd y ferch gyntaf i dderbyn Medal Hopkins, anrhydedd blynyddol a gyflwynir gan Gymdeithas Dewi Sant, Talaith Efrog Newydd, am gyfraniad arbennig gan unigolyn ym maes diwylliant Cymreig.

Dynion y Ffordd

Yn y rhifyn diwethaf dangoswyd llun o weithwyr ar Bont Barics, Nantperis. Cafwyd ymateb gan Gareth Jones, Llanrug (Cwm y glo gynt) sy'n dyddio'r llun i gyfnod rhwng Ionawr a Tachwedd 1961. Roedd yn gweithio i'r Cyngor Sir am y cyfnod byr hwn cyn symud ymlaen i waith arall. Gall enwi tri arall o'r gweithwyr, sef Keith Roberts, Llanberis, Gwilym Rhosgadfan a Ted Roberts, Cwm y glo. Tybed a ellir darganfod enwau'r gweddill sydd yn y llun?

Marchnad Caernarfon

Derbyniais y penillion canlynol gan ddarllen ydd o Gaernarfon. Mae'n bosibl mai rhan o gerdd neu faled am ddigwyddiadau ar ddiwrnod y farchnad yng Nghaernarfon sydd yma, a'r awdur yw Dic Dywyll. Gan mai Caernarfon oedd cyrchfan trigolion y fro hon, mae'n werth cynnwys y pedwar pennill.

Roedd yno rai drwg am ladrata
Medd geiriau Rebecca'r Tai Bach;
Fe gollodd hen ŵr o Feddgelert
Ei fased, ei siaced a'i sach;
Wrth wrando Dic Dywyll yn canu
Sian Robert gadd golled go gâs -
Sef dwyn ei cheiniogwerth o snisin,
Gwnaeth hyn iddi regi'n ddi-ras.

Gerllaw Court y Boot y bu batel
Ni fu ffasiwn ryfel erioed;
Fe syrthiodd Sion Catrin i'r gwter,
Fe sigodd Huw'r Drummer ei droed,
Fe glywais i chwaer Judi Logan
Roi clustan i Wil yr hen glos;
Ar ôl i bob trafferth fynd heibio,
Bu'r rheini'n tin hersian trwy'r nos.

(Sgwn i beth yn union a olygir gan 'tin hersian' yma? Efallai mai camgymeriad wrth gopïo'r

penillion a gafwyd. Mae cwpled olaf y pennill nesaf hefyd braidd yn anodd i'w deall)

Ond am y Bont Bridd, mewn tŷ tafarn,
Pan aeth hi'n lled agos i'r nos,
Mi glywais fod Huw'n y prydidd
A Dafydd Sion Gruffydd yn groes;
Roedd y ddau wedi syrthio mewn ffansi
Cynddeiriog am yr hen Betsi Binc;
Am na allent gael neb ar ei siwrna
A fedrasi'n well chwaer, o'r hen chwinc.

Ond fel roedd hi'n myned yn hwyrach
Roedd dynion yn groesach eu graen;
Mi glywais rhyw ffwl yn y Pendist
Yn ymladd â Guto'r Saer macn,
Y ddau wedi torri'r Tee Total,
Yn cwffio a rafio'n bur hyl;
Fe gipiwyd y rheini i'r Rheinws
Am eu bod hwy yn dangos eu dull.

Roedd llinell o gytgan yn cael ei chynnwys rhwng bob pennill, sef 'Ni chlywsoch chi rioed ffasiwn beth.' Ond beth oedd gweddill y cytgan?

Tybed oes rhywun all ychwanegu at y penillion neu roi mwy o wybodaeth am rai o'r cymeriadau a enwir.

Gwylfa Alawydd a

Theuluoedd Seion

Daeth gwybodaeth i law yn dilyn y cais yn y rhifyn diwethaf, ond oherwydd diffyg gofod bydd yn rhaid gohirio tan y rhifyn nesaf.

Gyda diolch i bawb a fu mewn cysylltiad ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro. Cofiwch anfon unrhyw gais neu wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).


Map yn dangos y tiroedd a ychwanegwyd at eiddo bywoliaeth Llanberis o ganlyniad i Gau Tiroedd Comin Llanrug.

B: tiroedd y 'Bounty' - eiddo bywoliaeth Llanberis.

B1: Parc Bailey

B2: Yr Efail - sef Twll y Clawdd bryd hynny. Sylwer nad yw'r briffordd bresennol o Gaernarfon i Lanrug wedi ei hadeiladu.

B3: safle Ysgol Glanmoclyn ynddiweddarach.



Aer Eryri ar werth ar y We!



Llun o'r botel ar eBay, ac isod – llun o'r dudalen ar y we.

eBay item 5549839334 (Ends Jan-20-05 07:49:55 PST) - Clear Fresh Air from Snowdonia

1/24/05 1:56 PM

home | pay | register | sign in | services | site map

Buy | Sell | My eBay | Community | Help

Start new search Search

Advanced Search

Powered By IBM

[Back to home page](#)

Listed in category: Everything Else > Other
Also listed in: Health & Beauty > Other Health & Beauty

Clear Fresh Air from Snowdonia

Item number: 5549839334

Bidder or seller of this item? [Sign in](#) for your status

[Email to a friend](#)

Bidding has ended for this item. (robinwalmsley is the winner).

[List an item like this](#) or buy a similar item below.



[Larger Picture](#)

Winning bid: **GBP 0.99**
(Approximately US \$1.86)

Ended: Jan-20-05 07:49:55 PST

Start time: Jan-10-05 07:49:55 PST

History: [1 bid](#) (GBP 0.99 starting bid)

Winning bidder: [robinwalmsley](#) (0)

Item location: Snowdonia, North Wales
United Kingdom

Ships to: Worldwide

[Shipping, payment details and return policy](#)

Seller information

[kfpmos](#) (36 ☆)

Feedback Score: 36

Positive Feedback: 100%

Member since Jun-03-03 in United Kingdom

[Read feedback comments](#)

[Add to Favorite Sellers](#)

[Ask seller a question](#)

[View seller's other items](#)

[Safe Buying Tips](#)

Description

Fresh Air caught on the breeze in the heart of the Welsh Countryside

AÊR CLIR ERYRI

Feeling jaded, washed up, trapped in the polluted downtown haze, which passes for air?

Go on treat yourself to a whiff of the good clean mountain air.

Smell the difference, sweet, crystal-clear, untouched by human hand.

It will arouse memories of pure spring waters tumbling down majestic mountains,

And evoke memories of a quiet stillness with the occasional glimmer of the new green leaves swaying in the gentle breeze.

All of this sent directly to you from the heart of Snowdonia in North Wales, Great Britain.

You will receive a carefully wrapped one litre bottle of fresh snowdonia mountain air, bottled the day you buy from me... ensuring freshness and clarity.

Will post internationally, see below for standard postage and packing rates to the UK and USA.

MAE aer Bro'r Eco yn cael ei farchnata a'i werthu mewn ocsiwn byd-eang ar y we.

Wythnos diwethaf roedd 'Aêr Clir Eryri' – potel wedi ei lenwi efo aer cefn gwlad Eryri – ar wefan eBay. Mae'r wefan yn hynod o boblogaidd ar draws y byd – gyda gwerthwyr yn rhoi pob mathau o eitemau ar y safle – o lyfrau, recordiau a cheir i bethau mwy anghyffredin. Gall unrhyw un fynd ar y safle i weld beth sydd ar werth, lle mae disgrifiad a llun o'r eitem wedi ei osod. Mae wedyn yn bosib 'bidio' am yr eitem yn union fel mewn ocsiwn arferol – a'r pris uchaf sy'n cael yr eitem.

Onid ychydig o ddiddordeb oedd yn 'Aêr Clir Eryri'. Roedd gwerthwr yr aer – sy'n dod o olgedd Cymru – wedi rhoi'r botel ar werth ar 10 Ionawr, gan gynnig potelu'r aer y diwrnod oedd yn cael ei brynu, a'i yrru i unrhyw le yn y byd.

Roedd yr eitem ar werth am 10 diwrnod, ond dim ond un bid gafodd ei gynnig – am 99c. O edrych ar y safle gwe, mae'n ymddangos mai gŵr o'r enw Robin Walmsley wnaeth brynu'r eitem – ond does dim manylion ynglŷn â phwy ydyw nac o le mae'n dod.

Onid y Post Brenhinol sydd wir ar ei ennill, gan fod y prynwr yn gorfod talu £2 ar gyfer dosbarthu'r eitem os yn byw ym Mhrydain, neu £10.50 os yn byw yn America.

Efallai bod y gwerthwr – *kfpmos* yw'r enw sy'n cael ei roi ar y safle gwe – wedi gobeithio gwneud arian allan o'r fenter, fel mae rhai wedi'i wneud eisoes drwy eBay. Rai blynedd oedd yn ôl gwerthwyd jet preifat ar y safle am £1.87m – ac fe brynwyd tref Briedgeville, California, am £1.1m.

Dyma sut oedd 'Aer Clir Eryri' yn cael ei disgrifio ar y safle...

Fresh Air caught on the breeze in the heart of the Welsh Countryside

AÊR CLIR ERYRI

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746


TAFARN BRYNGWNA Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul
a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch (01286) 674568
i gadw bwrdd neu
archebu ymlaen llaw

CROESAIR CHWEFROR



Ar draws:

- 1 Y wraig (fe glywaf) heb ddillad amdani! Wel dyna wirion! (6)
- 4 Lle i'r anifeiliaid gwyllt guddio (3)
- 6 Caru wna'r wraig (fe glywaf) - ac yna crio! (6)
- 12 Bwyd anifeiliaid o Beran? (5)
- 13 Ffrwythau bach melys (5)
- 14 Grisau (5)
- 15 Un sy'n torri cwys (7)
- 16 Heol o gerrig i groesi'r afon? (4)
- 17 Taflu allan o'r Hen Nodiant? (3)
- 21 Trychineb y wraig (fe glywaf), a'i thynged (6)
- 24 Offer a ddefnyddir gan saer i wneud tyllau (7)
- 27 Cludydd mewn bwlb trydan (6)
- 28 Ergyd â chwip (3)
- 29 Y sylwedd sy'n ffurfio organau'r corf (6)
- 32 Gall crwyn a'i tebyg fod yn gelfydd! (7)
- 33 Rhoi lledr dan y droed a rhedeg i ffwrdd? (6)
- 36 Enw llawn y wraig y cyfeirir ati yn un ar draws ac mewn wyth cliw arall (3)
- 37 Wedi troseddu, ac yn haeddu cosb (4)
- 39 A yw'r aderyn sy'n dod â phlant yn rhoi ergyd â'r troed i Nia? (7)
- 43 Roedd y wraig (fe glywaf), hyd yn oed cyn y niwl, o'r golwg! (5)
- 45 Rhoi'r gorau iddi - i gynhyrchu? (5)
- 46 Gyrru y wraig (fe glywaf) cyn iddi dywyllu! (5)
- 47 Dewin (6)
- 48 Dianc (3)
- 49 Swyddogion y llys sy'n rhoi'r gyfraith mewn grym (6)

I Lawr:

- 1 Tymhorau neu achlysuron (6)
- 2 Yr hyn oedd yn arferol mewn hen goleg ym Mangor? (6)
- 3 Mae'r ferch hon wedi meddwi ar 13 ar draws! (5)
- 5 Anffawd y wraig (fe glywaf)

cyn yr yrfa! (5)

- 7 Agosáu at (4)
- 8 y lle hwn (3)
- 9 yn y dyfnderoedd (4)
- 10 Damcaniaethau (7)
- 11 Ie - i lawr! (2,2,3)
- 18 Lle caeedig cysgodol yn y coed (6)
- 19 Cors (6)
- 20 Y wraig (fe glywaf) â gair anwedus, yn cael cyflwyniad (5)
- 22 Tymherau drwg pan fo dau nwy yn cymysgu! (6)
- 23 Anghenfil chwedlonol, neu ambell wraig efallai! (5)
- 25 Cuddio arian (5)
- 26 Twb neu gasgen (6)
- 30 Mentro mae'r wraig (fe glywaf), cyn tyrchu (7)
- 31 Jac-y-dos yn codi caw rhacsog! (7)
- 34 Blin yw'r wraig (fe glywaf), o flaen y barnwr! (6)
- 35 Dyn eithriadol o gryf (6)
- 38 Cael llaeth o'r fuwch (5)
- 40 Peiriant i godi pwysau trwm (5)
- 41 Bwyd blasus a wneir o laeth (4)
- 42 Disgynnydd o lwyth yr Hebreaid (4)
- 44 Peth o natur awyr i oleuo neu dwymo (3)

Derbyniais atebion i groesair mis Rhagfyr gan Ceinwen Williams, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; N. Hughes, Cwmyglo; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Megan Morris, Dinorwig; Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Olwen Owen, Nan Owen, Moreen Lennon ac A. Hughes, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Alvona Jones, Prestatyn; Elfed Evans, Llanllechid ac un yn ddienw!

Elfed Evans, 12, Hen Barc, Llanllechid, Gwynedd LL57 3RS

ydi enillydd y mis. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Chwefror, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 14 Chwefror 2005.

RHODDION


£20: Eirlys Owen, Bontnewydd er cof am Stanley W. Owen.

£10: Mrs Amy Smith. Llechwedd. Tai Rhythallt, Llanrug; Di-enw, Clwt y bont; Dr Raymond a Mrs Laura Williams; Teulu 9 Bryn Golau, Waunfawr; Mr a Mrs R. Lloyd Roberts, Northampton.

£5: Elinor Jones, 2 Bron y Waun a theulu Glan Conwy; Colin a Sandra, Pennant, Tan y Ffordd, Bethel; Mrs Margaret Jones, Y Dalar Deg, Waunfawr; Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Teulu Dolydd, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; William James, Bro Eglwys, Bethel.

£2.50: Er cof am Mrs Ceridwen Owen, Ferndale, 5 Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£2: Jason ac Eleri Anderson, Stad Glyn Afon, Waunfawr.



CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR

PRYD I BAWB
01286 673190

Arlwyo Allanol yn
unrhyw leoliad neu
yn ein tŷ fferm

Achlysuron Arbennig:

Bedydd
Priodas
Penblwydd Priodas
Angladd
Parti Gwaith
Cinio Busnes

Cerid Mackinnon
Fferm Plas Tirion, Llanrug

R. L. DAVIES

Coed Belyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnall diggers bychain
ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

CHWARAEON

Rhoi Rhywbeth yn Ôl

Yr un yw'r gri mewn sawl camp erbyn heddiw – apêl am wirfoddolwyr fel pwyllgorwyr, dyfarnwyr a hyfforddwyr. Ymddengys nad oes problem denu chwaraewyr, cael y gweithwyr i gynnal yw'r broblem. Yn sicr, mae gofynion y ddeddf Gwarchod Plant wedi atal nifer rhag cyfrannu. Mae rhyw elfen o ofn yn deillio o gyflwyniad y ddeddf anghenrheidiol hon.

Y mae un ferch ifanc o Fethel wedi cymryd camrau pendant i ymestyn ei chyfraniad i fyd y campau. Disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail yw Lisa Williams.

Mae yn chwaraewr hoci a phêl-rwyd addawol, ond rygbi yw'r brif atyniad erbyn hyn. Dwy flynedd yn ôl daeth yn seithfed ym mhencampwriaeth hwylio Prydain yn Dover. Roedd yn aelod amlwg o dîm hwylio Cymru.

Mae Lisa yn aelod o dîm Caernarfon, ac eisioes yn aelod selog o garfannau rygbi dan 19 a thîm hyn merched Gogledd Cymru. Mae'n un o selogion 'y rheng flaen'.

Yn atodol i chwarae mae Lisa a'i bryd ar gael y cymwysterau anghenrheidiol

ym myd hyfforddi. Bob chwe wythnos gyda dwy arall o'r clwb mae Lisa yn teithio i Gaerdydd. Yno mae'n rhan o Academi Hyfforddi Undeb Rygbi Cymru. Mae'n gobeithio cael cymhwyster 'instructor' hefyd. Mae hyn yn swydd bwysig mewn datblygiad unrhyw gêm, gan mai'r 'instructor' sy'n hyfforddi'r hyfforddwyr. Eisioes mae rhai o ysgolion cynradd y cylch wedi elwa gan fod y tair yn cynnal sesiynau hyfforddi yn yr ysgolion.

Mae ei chwaer hyn, Sarah, hefyd yn gwneud ei marc ym myd y campau ac mae hithau hefyd yn aelod o glwb rygbi Caernarfon. Ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs hyfforddiant athrawes Ymarfer Corff yng Ngholeg UWIC, Caerdydd. Mae Sarah hefyd yn dilyn cwrs yn ymwneud a 'physiotherapy'. Mae trin anafiadau chwaraeon erbyn heddiw yn wyddor yn ei hun. Mae dyddiau yr hen 'ddoctor dŵr' wedi hen ddiiflanu. Mae nifer o ymgeleddwyr ein prif dimau rygbi erbyn hyn yn ferched. Mae Sarah wedi cael un swydd yn barod fel un o'r garfan sy'n gyfrifol am iechyd a ffitrwydd tîm Pêl-rwyd Cymru.

201 – a dal i rwydo!

Erstalwm byddai pobl yn cyfeirio at ambell flaenwr fel 'un da am gôl'. Roeddent yn ymddangos yn rheolaidd ar restr y sgorwyr. Dwy seren amlwg oedd Dennis Law a Jimmy Greaves. Y ddau yn frenin yr 'hanner cyfle', ac yn beryg bywyd yn y cwrt chwech. Pa un oedd y gorau? Hen ddadl. Roedd y ddawn yma ar lefel lleol gan Eifion Williams o'i ddyddiau ysgol. Yn y chwedegau roedd Ken Jones a Richie Jones yn rhwydo fel pŷs i Llechid a Llanberis.

Erbyn hyn mae Marc Lloyd Williams yn arch sgoriwr. Mae colofnau'r *Eco* wedi nodi ei ddawn cynhenid fel sgoriwr o'i ddyddiau ysgol, clybiau lleol a chynghrair Lloegr. Mae'n siŵr yn rhywle fod cofnod ohono yn sgorio yn Nhlws yr Eco!

Yn ddiweddar death 'Jiws' y chwaraewr cyntaf i rwydo 200 o goliau yng Nghynghrair Cymru. Tipyn o gamp, ac mae'r ystadegau ynglŷn â'r gamp yn rhyfeddol.

Daeth y 201 o goliau mewn 286 gêm (24 fel eilydd). Rhannwyd y goliau rhwng pedwar clwb – Porthmadog,

Bangor, Aberystwyth ac yn ddiweddar, TNS. Y toriad o ran goliau yw 28 i Borthmadog, 130 i Fangor, 18 i Aberystwyth a hyd yn hyn, 25 i TNS. Rhaid cofio wrth gwrs nad yw'r cyfanswm yn cynnwys goliau mewn gemau cwpau. Daeth ei gôl cyntaf yn y gynghrair i Borthmadog draw yng Nglyn Ebbwy ar Fedi 26, 1992.

Ei dymor aur oedd 2001–2 pan sgoriodd 47 gôl i Fangor mewn 34 gêm. Efallai i chwi gofio'r ddadl a ddylid cyflwyno'r Esgid Aur i Marc fel prif sgoriwr Cynghreiriau Cenedlaethol Ewrop.

Llongyfarchiadau i Marc, a tybed a welwn erthygl yn yr *Eco* yn cronicle gol rhif 300! Gwylwch y goliau.

Marathon Llundain

Fel arfer, mae ambell redwr lleol yn mentro herio Marathon Llundain, ym mis Ebrill. Trwy eu hymdrechion, mae nifer o elusennau yn elwa. Os dymuna unrhyw un o'r rhedwyr yma ddefnyddio colofnau'r *Eco* i gael hysbysrwydd gadewch i mi wybod.

Cefnogi Swyddogion

Yn ystod rhyw drafodaeth am gyfraith a threfn ar y radio yn ddiweddar, mynnodd un cyfrannwr fod unrhyw ddeddf neu reol yn ddiwerth os na ellir ei chefnogi i'r carn. Yn y byd mawr, yn sicr mae ysmygu ac yfed o dan oed yn disgyn o dan y categori yma, ac efallai y buasai sawl athro yn awgrymu fod ambell reol ysgol erbyn hyn yn ddi-ddannedd. Cymdeithas sydd wedi newid meddai rhai. Ydy hyn yn wir, ynteu carfan o gymdeithas sy'n cael gormod o ddylanwad?

Rwy'n cofio pan oeddwn yn ddyfarnwr pêl-droed, i nifer ohonom geisio gwneud safiad ynglŷn â'r cynnydd sylweddol o iaith aflednais ar feysydd pêl-droed. Teilmlen fod y reol 'ungentlemanly conduct' yno i'n cefnogi. Daeth cyfle i roi hyn 'ar brawf' wedi un gêm danllyd yn ymwneud ag un o dimau Caernarfon.

Gofynnodd y chwaewr am wrandawriad personol. Roedd y dystiolaeth yn ei erbyn yn gryf, yn enwedig ym maes yr iaith anwedus. Gwrthododd y pwyllgor gosbi y chwarewr gan mai 'fel yna ma nhw'n siarad yn naturiol yn drel'.

Dro arall roedd achos ble dyfarnwyd chwaraewr – oedd eisioes wedi derbyn cerdyn melyn – oddi ar y cae am dactl ddiffrifol. Yn ei adroddiad mynnodd y dyfarnwr fod y dactl ei hun yn haeddu cerdyn coch. Eto cafwyd apêl – er mwyn i'r chwaraewr fod yn rhydd i chwarae rhyw gêm gwpan bwysig. Yn yr apêl, cafwyd y chwaraewr yn euog, a chael gwaharddiad o 14 diwrnod. Yn dilyn y gwaharddiad galwyd y dyfarnwr yn ôl i mewn a dweud wrtho am rhoi dau gerdyn melyn tro nesa gan fod yr achos yn haws i'w drin felly. Yn sicr roedd diffyg cefnogaeth fel yna yn arwain maes o law i'r lleihad pendant yn y nifer syn barod i ddod yn ddyfarnwyr.

Y mae'n broblem gynyddol

erbyn hyn gyda'r cynnydd sylweddol yn y nifer o gemau a ddangosir ar y teledu. Hefyd, y dangos ac ail-chwarae cyson. Anwybyddir mai eiliad yn unig gaiff unrhyw ddyfarnwr i wneud penderfyniad. Yn amlwg gwnaed camgymeriad drwy beidio a rhoddi gôl i Spurs yn Old Trafford. Cosbwyd y llumanwr am ei onestrwydd. Ni allai unrhyw ddyfarnwr roddi penderfyniad heb weld y digwyddiad yn glir. Ar hyn o bryd, dyfarnwyr nid teledu sy'n rheoli gemau. Nid dweud rydw i na ddylid defnyddio technoleg. Ond, hyd nes gwneir y penderfyniad hwnnw, rhaid cefnogi'r dyfarnwr.

Ond beth am y troseddau sy'n dylwanwdu ar ieuenctid, a welir yn glir gan lygaid y camera. Mor aml y gwelir chwaraewr yn rhegi'n wyneb y dyfarnwr, heb unrhyw ymateb. A yw'r dyfarnwr i fod i gymryd hyn heb ymateb? Ym myd rygbi gwelir y dyfarnwr yn pigo'r bêl i fyny a chamu ddeg llath ymalen. A ddylid addasu hyn i fyd pêl-droed? Na? Derbyn y rhegi a'r taeru felly. Gêm i ddynion ac yn y blaen! Y mae'r bêl yng nghwrt yr awdurdodau. Gwell yw gweld gêm gystadleuol tu fewn i'r rheolau na gêm gystadleuol yn cynnwys ambell i 'sgwario' a thaflu dwrn! Y mae nifer cynyddol o gemau yn tueddu i fynd i'r ail gyfeiriad erbyn hyn, a'r camerau yn bwydo ein chwant am gyffro o'n seddau cyfforddus yn ein lolfa. Ac yn sicr nid yw'r wasg yn helpu trwy gynnal y ddadl blentynnaidd rhwng Ferguson a Wenger. Yn sicr, mae'r ddau yma yn aml yn dod ag anfri i'r gêm.

Efallai mai darlunio carfan fechan o chwaraewyr mae'r erthygl yma, ond yn ddi-os drwy or-sylw a diffyg ymateb cadarn yr awdurdodau, maent yn cael gormod o ddylanwad.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253